

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 520 • Mai 2021 • Rhifyn Digidol • Am Ddim

Mae Ogwen yn Ymagor...

(Ieuan Wyn)

Wedi dyddiau du a drysau caeëdig, mae'n bleser pur gwelw fod pethau'n ail-agor yn y Dyffryn. Gydag amodau a chyfyngiadau Covid yn cael eu llacio yng Nghymru yn ystod mis Ebrill, mae cwmnïau lleol wedi manteisio ar y cyfle i'n croesawu'n ein holau dros y trothwy. Ond nid yw'r cwmnïau hyn wedi bod yn segur dros y cyfnod clo, o naddo! Maent wedi bod wrthi'n ddiwyd yn meddwl am ffyrdd amgen, newydd o ddarparu'u gwasanaeth arferol i'r gymuned yn Nyffryn Ogwen a thu hwnt, a hynny trwy feddwl yn greadigol ynghylch sut i gyrraedd eu cwsmeriaid arferol.



Gwelwyd sawl cwmni yn ehangu eu darpariaeth trwy gynnig gwasanaethau newydd megis



cludo nwyddau, pryd ar glud, neu archebu arlein. Ac mae'r holl fentrau newydd yma wedi bod yn ffordd o geisio sicrhau fod argaeledd eu cynnyrch yn parhau'n llif cyson i ni'r cwsmeriaid.

Ond, gyda llacio cyfyngiadau ac ail-agor y drysau, ydyn ni wir yn barod i ddychwelyd at ein hen ffordd o siopa, ac at ddrysau llithrig-awtomatig yr archfarchnadoedd mawr? Ydi'r demtasiwn i ddychwelyd at arferion cyn Covid wir yn rhywbeth i edrych ymlaen ato?

Y gwir amdani yw fod busnesau bychain, siopau annibynnol ac unigolion hynod weithgar wedi bod wrthi o fore gwyn tan nos yn cadw'r cogiau'n troi yn Nyffryn Ogwen. Nhw sicrhodd fod cynnyrch ar gael er mwyn i ni beidio mynd "heb" ddim byd yn ystod y cyfnodau clo, a nhw hefyd sydd wedi sicrhau ein bod wedi gallu meddwl yn greadigol am y pethau hynny'r oeddem eu "hangen" mewn gwirionedd. Trasiedi fyddai gadael i'r holl arloesedd hwn fynd yn angof, a dychwelyd at ddrysau mawrion yr arch-siopau i lawr y lôn. Ydi, mae Ogwen YN ymagor. Gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau parhad asgwrn cefn ein cymdeithas a chefnogi'r busnesau bychain roddodd gymaint i ni dros gyfnod mor neilltuol o anodd. Y mae ein dyled iddynt yn fawr.



www.llaisogwan.com



@Llais_Ogwan

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
(Ffôn 600965)
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd
(Ffôn 01248 601606)
rml42@live.co.uk
- Swyddogion**

CADEIRYDD:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Lowri Roberts**.
Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd **Rhodri Llŷr Evans**, 2 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP
07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 29 Mai**, os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS

Llythyr

Annwyl Drigolion Dyffryn Ogwen, Faint ohonoch sy'n ymwybodol o'r eglwys fach ger penllyn Ogwen? Mae'n adeilad bach tlws iawn gyda gwaith carreg da iawn. Saif ar fin y ffordd sy'n mynd i lawr yr ochr bellaf o Nant Ffrancon. Flynnyddoedd yn ôl 'roedd gwasanaethau yn yr eglwys ar y Sul, gyda ficer Glanogwen yn eu cynnal. Ond yn ystod yr wythnos, cynhelid yr ysgol leol yno.

Mae'n fwy na thebyg mai plant Nant Ffrancon a Nant y Benglog fyddai'r disgyblion. 'Rwy'n cofio'n iawn rai fu'n ddisgyblion yno yn ystod blynyddoedd cyntaf y ganrif ddiwethaf, tua 1908 o bosibl, er nad oes gen i ddyddiadau pendant.

Bu un o'r cyn-ddisgyblion hyn yn adrodd ei hanes yn yr ysgol. Yn ystod yr wythnos, 'roedd llenni'n cau'r gangell oddi wrth gorff yr eglwys. Mae'n debyg nad oedd yr athro'n boblogaidd gyda'r bechgyn, ac unwaith y troai ei gefn byddai'r bechgyn yn chwarae y tu ôl i'r llenni. Peth arall yr oedd yn ei gofio oedd bod y plant yn gorfod helpu i wthio cwch yr athro i fyny'r llwybr at Lyn Idwal yn y gwanwyn, a'i gwthio i lawr wedyn yn yr hydref, ar ddiwedd y tymor pysgota. Cofiaf weld llun o blant yr ysgol yn sefyll y tu allan, - rhyw 5 neu 6 oedd yno - a'u hoedran yn amrywio o blentyn ifanc iawn o dan 4 oed (bachgen oedd o, ond fel yr oedd yn arferiad

yn yr oes honno, gwisgai ffrog) i rai hŷn. Byddai'n rhaid bod dros 5 neu 6 i gael gwisgo trowsus. Un o'r criw yma oedd yn dangos y llun ac yn dweud yr hanes wrthyf.

Un athro oedd yn yr ysgol, ac 'roedd ganddo ddesg uchel gyda chwprdd yn y gwaelod a slôp ysgrifennu ar y top, gyda'r caead yn codi i gadw llyfrau ac yn y blaen. Daeth y ddesg yma i feddiant fy ewyrth pan gaewyd yr ysgol. 'Papurau pwysig' y fferm oedd yn y ddesg - fferm Tŷ Gwyn, Nant Ffrancon. Mae'r ddesg yma yn awr yn fy meddiant i, ac mae wedi cael oes o'i defnyddio. Mae amser y 'downsize' wedi dod ac mae'n rhaid cael cartref arall i'r ddesg hanesyddol yma.

Cynigiwyd y ddesg i Storiell (Amgueddfa Bangor) ond gan nad ydy'r gadair uchel ddim gyda'r ddesg 'doedd ganddyn nhw ddim diddordeb. Felly os oes gan rywun ddiddordeb yn y ddesg, neu fwy o fanylion am yr ysgol, neu am awgrym am gartref teilwng iddi, cysylltwch â mi:



Arfon Jones, (Arfon Tŷ Gwyn)
Glan Hafren, Caersws,
Powys, SY17 5SA
Ffôn: 01686 688 679

Rhoddion i'r Llais

- £10** Derek a Jean, Rachub.

£20 Er cof am Mr. William John Evans a Mrs. Glenys Evans, Ceunant, oddi wrth Gwilym Rees, Karen, Tom a'r teulu.

Diolch yn fawr

Apêl Arbennig – Ebrill 2021

- £28.00 George Owen, Bangor.
(Nai Wil o Gaergybi)

£20.00 Gwilym a Barbara Owen,
Rhos y Nant, Bethesda.

Diolch yn fawr.



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru



Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Croeso adref

Mae Dewi Owen, Rallt Isaf, adref o’r diwedd ar ôl cyfnod hir a phryderus yn Ysbyty Gwynedd. ‘Rwy’n siŵr ei bod yn braf bod adref a gobeithiwn yn fawr eich bod yn cryfhau bob diwrnod. ‘Rydym yn colli eich gweld am sgwrs wrth i chi grwydro’r Gerlan, felly gobeithio y byddwch yn teimlo’n ddigon da i gael mynd am dro bach yn fuan.

Cydymdeimlo

‘Roedd yn ddrwg calon gennym glywed am golled Jez a Hannah Shea, lanto a

Cai, Ffordd Gerlan. Bu farw Chris, tad Jez, yn frawychus o sydyn, ac mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd atoch chi fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â David Waller, Stryd y Ffynnon, a gollodd ei fab yn sydyn dros y Pasg. Bu farw Adam yn ddirybudd ac yntau ond yn 36 oed. Cofion cynhesaf atat a’r teulu, David.

Babis newydd Gerlan

Llongyfarchiadau mawr i Arwyn a Lowri Ogwen ar enedigaeth Ted Ogwen Griffith. Mae Ned a Twm wedi mopio efo’u brawd bach, a’r nain a thaid o’r ddwy ochr, sef Richard a Rhian Ogwen ac Ogwena Jones a Gareth wedi dotio hefyd.

Mae Nel-Rhys wedi cyrraedd yn fuan iawn hefyd, ar y 18fed o Ebrill. Llongyfarchiadau mawr i Lliwen Angharad a Dylan, hen Siop Gerlan, ac mae Ben wrth ei fodd yn cael bod

yn frawd mawr. Mae Nel-Rhys yn cryfhau’n ddyddiol, a gobeithiwn y caiff hi ddod adref i’r Gerlan yn fuan. Anfonwn ein cofion atoch, gan obeithio y cawn ei chyfarfod yn fuan.

Caban Gerlan

Fel un a gafodd fynd i’r Ysgol yn y Gerlan, ‘rwyf yn cofio chwarae ar y buarth yn y cefn, ac yn cofio digwyddiadau codi arian yn cael eu cynnal yno yn y gorffennol hefyd. Erbyn hyn, mae’r hen fuarth wedi tyfu’n wyllt, ac mae angen cryn dipyn o waith yno er mwyn ei dacluso a rhoi trefn arno. Byddai’n dda cael rhyw fath o ofod cymunedol yno a fyddai’n gallu bod yn adnodd gwerthfawr i’r gymuned i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau y tu allan. Os oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallwn ddatblygu hyn, yna byddai gennym ddiddordeb clywed gennych. Byddem wrth ein bodd yn cael pawb yn y pentref i fod yn rhan o ddatblygu rhywbeth arbennig i’r Gerlan.

Chwilio am gantorion Cymru sy’n breuddwydio am ganu gyda’u harwyr

Mae’r rhaglen sy’n codi’r galon, **Canu Gyda Fy Arwr**, yn ôl am ail gyfres ac yn rhoi cyfle arall i unigolion neu, am y tro cyntaf eleni, grwpiau, gymryd rhan mewn profiad hollol unigryw o ganu gyda’i arwr cerddorol.

Roedd y gyfres gyntaf, a ddarlledwyd ar S4C ym mis Ionawr 2021, yn cynnwys Elin Fflur, Shân Cothi a Dafydd Iwan yn canu gyda phobl o wahanol gefndiroedd gyda rhai yn enwebu eu hunain ac eraill yn cael eu henwebu gan ffrindiau neu deulu, fel sypreis llwyr!

Mae’r tenor adnabyddus Rhys Meirion, sy’n cyflwyno’r rhaglen, nawr yn chwilio am freuddwydwy newydd sydd wrth eu boddau â cherddoriaeth i gymryd rhan mewn deuawdau disglair ar gyfer y gyfres nesaf. Mae Rhys wedi gweld y potensial sydd gan y gyfres hon i newid bywydau.

“Dwi wedi bod yn ffodus i gael y cyfle i ganu gyda rhai o’r harwyr ar hyd fy ngyrfa



– nid yn unig ar lwyfan ond ar y sgrin hefyd yn y gyfres Deuawdau Rhys Meirion. Mae profiadau fel hyn wir yn newid eich bywyd er gwell.

“Mae Cymru’n cael ei hadnabod fel gwlad y gân ac rydyn ni am ddod â mwyr o’i chantorion cudd i’r awyr agored, arddangos eu talentau a’u cael i ganu gyda’u harwyr a’u harwresau cerddorol.

“Rydyn ni eisiau clywed gan gymaint o bobl â phosib

i ddweud wrthym am eu gobeithion a’u breuddwydion cerddorol. Ac unwaith eto, does dim terfyn ar bwy all wneud cais. Rydyn ni’n chwilio am bobl o 10 i 110, a gall y rhaglen ymdrin ag unrhyw genre cerddoriaeth – o’r pop i’r clasurol, roc i reggae, jazz, gwerin, unrhyw beth!”

Felly os ydych chi’n breuddwydio am ganu gydag arwr neu arwres arbennig, neu

eisiau enwebu ffrind, aelod o’r teulu neu grŵp sy’n haeddu’r profiad bythgofiadwy yma, mae angen cysylltu â chwmni cynhyrchu teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon, erbyn dydd Llun, Mehefin 7, 2021.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais ac anfonwch glip fideo byr i <https://www.cwmnida.cymru/canu/>. Ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â canu@cwmnida.tv neu 07483904452.

Glasingfryn a Chaerhun

Dymuniadau gorau

Mae un o drigolion Waen Wen wedi symud i fyw i Cae Garnedd, Penrhosgarnedd. Mae Ifor Williams, Glenfor, wedi byw yn Waen Wen ers nifer fawr o flynyddoedd ers iddo briodi â Glenys ei ddiweddar wraig, a oedd yn byw dros y ffordd yn Nhyddyn Llywelyn. Dymunwn bob hapusrwydd ac iechyd da i Ifor yn ei gartref newydd.

Y Ganolfan

Gyda rheolau'r Covid yn dechrau cael eu llacio, a nifer fawr iawn o'r boblogaeth wedi cael eu brechu, mae gobaith y cawn ail agor y Ganolfan eto yn fuan. Mae cyfres o Weithdai Crefft gyda Sophia wedi eu clustnodi ar gyfer diwedd Mai. Cadwch olwg ar yr hysbysfyrddau yng Nglasingfryn a Chaerhun am fwy o fanylion.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a rwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537

Bethesda

Cyfarchion

Diolch i Dilwyn Owen am yr englyn hwn i gyfarch y Prifardd Ieuan Wyn a anrhydeddwyd yn Gymrawd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

IEUAN WYN

Â'i fryd ar warchod y fro, – ei heniaith,
Ein hanes, a'r brwydro
Am hir dros ein tir a'n to,
Unwn i'w gyfarch heno.

Dilwyn Owen



Dathlu 50

Na, nid hanes rhywun yn dathlu pen-blwydd ydyw'r pwt bach yma, ond hanes rhywun arbennig yn dathlu hanner can mlynedd o weithio i GIG Cymru. Dyna ydyw hanes Bernard Jones, o Faes Coetmor, Bethesda, ond sydd bellach yn byw ym Mhenrhosgarnedd. Ymunodd Bernard a'r Gwasanaeth Iechyd ym 1971 fel Technegydd Llawdriniaeth o dan Hyfforddiant, gan adael ym 1977 i ymuno â'r gwasanaeth Ambiwylans fel technegydd ambiwlans. Yn ystod y blynyddoedd hynny cafodd brofiadau gwerthfawr, gan ennill mwy o gymwysterau. Pan agorodd Ysbyty Gwynedd ym 1984, penderfynodd Bernard ddychwelyd at waith yn yr Ysbyty, a chafodd y swydd o fod yn Gynorthwywr Adran Llawdriniaeth. Mae Bernard wedi cael canmoliaeth uchel gan ei gyd-weithwyr dros y blynyddoedd, sy'n ei weld yn rhan annatod o'r tîm. Mae hefyd wedi gallu rhannu ei wybodaeth eang â'i



gyd-ymarferwyr dros y blynyddoedd i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau.
Er bod Bernard bellach dros ei 70 does dim sôn am ymddeol! Llongyfarchiadau mawr Bernard, a diolch am dy wasanaeth a'th ymroddiad dros yr holl flynyddoedd.

Ysbyty

Cofion cynnes at sawl un a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:- Mrs. Marion Jones, Ffordd Coetmor, Mrs. Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas a Caryl Griffiths, Glan Ffrydlas.

Cofion gorau hefyd at gyfeillion sy'n sâl gartref, sef;- Mr. Phillip Williams, Penybryn; Mrs. Rita Evans, Erw Las; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mrs. Shirley Pritchard, Pantglas; Mrs. Elsie Evans, Garneddwen; Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas a Mrs. Joan Griffiths, Glan Ffrydlas.

Hen Nain

Llongyfarchiadau i ddwy ar ddod yn hen nain yn ddiweddar gyda genedigaeth Seren Gwawr, merch fach i wyres Mrs. Joan Parry, Abercaseg a Mrs. Joan Cross, Adwy'r Nant. Hefyd, llongyfarchiadau i Steven, Ann ac Osian ar achlysur hapus geni merch i Sioned a'i chymar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Frank Thomas a'r teulu, Glanogwen. Collodd Frank ei frawd, Douglas, oedd yn byw yn Barrow, Lloegr.

Marwolaethau

Mona Thomas
Yng nghartref Plas Ogwen, ar 12 Ebrill, bu farw Mrs. Mona Thomas, Bro Derfel, gynt o Ffordd Ffrydlas, yn 84 mlwydd oed - priod annwyl Mr. Gwynfor Thomas, a mam hoffus i Carys, Alan, Bethan, Owena a Phillip. 'Roedd hefyd yn nain a hen nain, ac yn chwaer i Llew ac Ann. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 20 Ebrill, o dan arweiniad y Parchedig Dewi T. Morris. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Arthur Douglas Hughes

Ar 16 Ebrill, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Arthur Douglas Hughes, 18 Abercaseg, yn 73 mlwydd oed - priod y ddiweddar Mrs. Elizabeth Hughes, a thad a thad-yng- nghyfraith i Carys, Marian, Phillip a John. 'Roedd yn daid i Shona, Lowri, Osian, Caio, Cari a Gwion ac yn frawd ac ewythr. Bu ei angladd yn Eglwys y Santes Fair (Gelli), Tregarth, a mynwent Coetmor ddydd Iau 29 Ebrill. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Yr Eglwys Unedig

Ail-agor y Capel

Erbyn y bydd y rhifyn hwn o'r Llais wedi'i gyhoeddi, gobeithiwn yn fawr y byddwn wedi cael dechrau cynnal gwasanaethau yn y Capel am y tro cyntaf ers dros flwyddyn. Fe wyddoch ein bod wedi cynnal gwasanaethau ar y ffôn yn ystod y cyfnod clo, a thestun llawenydd i ni yw bod amryw byd o'r rhai ohonoch sydd yn analluog i fynychu'r Capel, oherwydd rhesymau megis llesgedd neu anabledd, wedi gallu ymuno â ni drwy gyfrwng y ffôn. Ein gobaith yw y gallwn barhau â'r trefniant yma ochr yn ochr â'r gwasanaethau yn y Capel. Hyfryd hefyd yw bod wedi cael cwmni cyson Siân Ward o Fangor, Mair Jones (Parry'r Cigydd gynt) o barthau Llundain, ac Aled Hughes o ardal Birmingham, ynghyd â chyfeillion o Ynys Môn a Phen Llŷn.

Diolchwn i bob un ohonoch am eich cefnogaeth a'ch ffyddlondeb i Achos Iesu Grist, ac anfonwn ein cofion cywriaf at bawb ohonoch, gan obeithio y cawn gwrdd â'n gilydd unwaith eto cyn bo hir.

Dyma gyfeithiad hyfryd gan Elin Angharad o gerdd arbennig gan John Greenleaf Whittier, sydd yn crynhoi ein dymuniadau gorau i chwi i gyd:

Dal dy Dir

Pan aiff popeth o'i le – fel sy'n gallu digwydd,
A'r llwybr o'th flaen yn ymddangos fel mynydd,
Yr arian yn brin, a'r dyledion yn codi,
Dy ysbryd yn wan, a'th obeithion yn pylu;
Pan fo bywyd yn pwyso yn drwm ar d'ysgwyddau,
Gorffwys am ennyd, ond paid byth â rhoi'r gorau!
Peth rhyfedd 'di bywyd, gyda'i hynt a'i helyntion,-
'Da ni i gyd wedi profi ein siâr o bryderon,
Ac mae'n hawdd colli gafael ar adegau felly –
Colli'r awydd i ennill pan fo'n haws i ni fethu.
Paid byth ag ildio pan fo'r llwybr yn serth,

Cymer dy wynt, ail gydia'n dy nerth.
Llwyddiant yw methiant wedi'i droi ar ei ben –
Ni phrofir y melys heb y chwerw drachefn.
A 'does wybod byth pa mor agos wyt ti
At yr ymyl arian i bob cwmwl du.
Felly, pan fo'r frwydr yn ymddangos yn hir,
Pan fo bywyd fel gwydr – cofia ddal dy dir!
(**Diolch Elin**)

Llongyfarchiadau

Anfonwn ein llongyfarchiadau at un o'n haelodau ifainc, sef Buddug Watcyn Roberts, ar ddod yn gydradd gyntaf, a hefyd yn ail, mewn cystadleuaeth lenyddol i rai 19 – 25 oed yn Eisteddfod Rithiol Marianglas. 'Roedd y beirniad, sef y Prifardd Rhys Iorwerth, yn llawn canmoliaeth o'i gwaith – da iawn ti, Buddug!

Cyhoeddiadau'r Sul:

Dalier sylw ar leoliad y Gwasanaeth:

Mai 23: Bore (10) yn y Capel ac ar y ffôn: Y Parchedig Iwan Llewelyn Jones
Mai 30: Bore (10) yn y Capel ac ar y ffôn: Mrs Eirlys Williams
Mehefin 6: Y Parchedig Megan Williams [Bore (10) ar y ffôn],
Nos (5) yn y Capel]
Mehefin 13: Mr Richard Morris Jones [Bore (10) ar y ffôn],
Nos (5) yn y Capel]

A dyma'r rhifau ar gyfer ymuno â ni ar y ffôn:
Deialu: 03330 164 757; Rhif Ystafell: 110 445 70#
Rhif Pin: 4414#

Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni!

Eglwys Crist, Glanogwen

Newyddion Gwell

Wel, mae'r clochdy wedi ei drwsio am y tro, ac mae'r eglwys ar agor unwaith eto. Ond, yn dilyn yr adroddiad ar gyflwr yr eglwys, ac fel yr oedd yr aelodau'n ofni, mae'r adeilad drwyddo draw angen sylw, ac er nad oes perygl i ni fel cynulleidfâ bellach, mae angen gwaith sylweddol i ddod â'r safon i fyny a chadw'r tywydd allan. O ganlyniad, mae angen swm mawr o arian i gyllido'r gwaith, a'r gobaith yw y bydd y gymuned yn barod i gefnogi'r ymdrech enfawr sydd o'n blaen, er mwyn cadw a chynnal yr adeilad hardd a hynafol hwn fydd ar gael i bawb ohonom.

Cynhelir ein gwasanaeth Cymun nesaf fore Sul, Mai 30, am 11 y bore. Hefyd, bydd gwasanaeth Cymun byr, a phaned i ddilyn, y bore Mercher canlynol, sef Mehefin 2il, am 10.30 y bore, ac yn ôl yr arfer, mae croeso i bawb i'r gwasanaethau hyn. Ar fore

Sul, Mai 30 hefyd, mae gwahoddiad i ddod â rhoddion tuag at Fanc Bwyd y Gadeirlan, a gwyddwn y bydd croeso mawr fel arfer i'r bagiau.

Diolch o galon i bawb o'n aelodau sydd wedi cyfrannu'n gyson drwy gyfnod y Clo, - mae pob cyfraniad yn wirioneddol werthfawr. Diolch yn fawr iawn.

Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl yn eu cartref neu'r ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan a chysur i bawb.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Bu ymgyrch Etholiad Cymru'n wahanol eleni am nad oedd aelodau'n cael cnocio drysau na dosrannu taflenni am wythnosau lawer, oherwydd cyfyngiadau Covid-19; ond daeth yr ymgeisydd Llafur (Iwan Wyn Jones o Ddyffryn Nantlle) i'r ardal i ymweld ag aelodau y tu allan i'w tai ac i helpu rhoi trefn ar weithgareddau. Y mae Iwan yn drysorydd Plaid Lafur Arfon, Cadeirydd Sosialwyr Ifanc Cymru ac yn gwneud gweithgareddau gwirfoddol eraill hefyd (e.e. yn yr ysbyty), ond mae ei waith cyflogedig gyda threnau Trafnidiaeth Cymru. Safodd fel ymgeisydd Llafur yn etholaeth Ceredigion y tro diwethaf.

Hefyd, bu aelodau'n brysur yn siarad gyda'r etholwyr ar y ffôn . Derbyniwyd canmoliaeth i'r ffordd y mae Prif Weinidog Cymru (Mark Drakeford) a Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymdrin â'r pandemig Covid-19. Cwtogwyd ar nifer y taflenni rhabdost gan Iwan Wyn Jones oherwydd bod taflen gan ymgeiswyr Llafur Gogledd Cymru a thaflen arall gan ymgeisydd Llafur ar gyfer yr heddlu.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar Fai'r 19eg, gyda'r cyfarfod dilynol ar Orffennaf yr 21ain.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(01248 605582 a 07887624459)
henbarc13@gmail.com

Daeth y contractwyr yn ôl i ostwng lefel un o'r twmpathau newydd sydd yn Llwyn Bleddyn, ond mae pryder yn parhau gan drigolion parthed uchder y llall.

Yn dilyn cwyn a anfonwyd at yr Awdurdod yn Llundain am hofrennydd yn ymarfer glanio wrth y ganolfan awyr agored uwchben Ffordd Tanybwllch, cafwyd ar ddeall bod angen cwyno wrth gwmni'r hofrennydd yn uniongyrchol.

Deallwn y bydd y gwaith o adeiladu tai yng Nghae Rhosydd (dros y ffordd i Maes Bleddyn) yn dechrau ym mis Mehefin. Ar hyn o bryd ymddengys bod gwaith archwilio archaeolegol yn digwydd ar y safle.

Dymunwn yn dda i Rita Harris, Bryn Bella (un o addolwyr Capel Carmel) a gafodd driniaeth yn Ysbyty Gwynedd ar ddechrau mis Ebrill.

Cafwyd cwyn nad oedd Siop Rachub yn agored yn ystod y prynhawniau. Y rheswm am hyn yw nad ydyw Swyddfa'r Post yn fodlon talu am agor y post yn y prynhawn.

Cafwyd gwybod ym mis Ebrill y byddai Lôn Groes ar gau am wyth diwrnod o Fai'r 10fed ymlaen.

Dymuna Derek a Jean ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt ar achlysur eu priodas deiamwnt.

post@llaisogwan.com

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

Pen-blwydd
Mae Mr Robin Jones, Rhif 14, newydd ddatlu ei ben-blwydd yn 97 oed, ac yn falch fod y siopau yn ail agor yn araf bach. Mae'n mynd ar y bws i'r dref bob dydd.

Cydymdeimlo
Trist yw gorfod cofnodi bod Mr Ernie

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Dymuniadau Gorau
Anfonwn gyfarchion at Joy Ratcliffe, Liz Jones, Pat Jones a phawb arall o'n cynulleidfa, yn ffrindiau a chefnogwyr, sy'n dioddef o anhwylder ar hyn o bryd. 'Rydym yn meddwl amdanoch.

Diolch
Mae cynulleidfa St Tegai yn hynod o ddiolchgar i eglwysi Bro Ogwen am estyn gwahoddiad iddynt i ymuno yn eu haddoliad tra mae ein heglwys ni ar gau. Nid yw Rhan 1 o'r gwaith atgyweirio wedi dod i ben. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai yn ystod y gwaith Atgyweirio
Yn ystod cyfnod y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa wedi cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac wedi ymuno bob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn anfon deunydd addoli yr esgobaeth yn wythnosol

Coleman, Morning Side, Y Bryn wedi ein gadael. 'Roedd wedi bod yn yr Ysbyty ers syrthio yn ei gartref ddydd Nadolig. 'Rydym yn cydymdeimlo gyda'i deulu.

Croeso
Mae Bernadette a Dei Owen wedi symud o'r Felinheli i Bryn Derw yn y pentref. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.
Croeso hefyd i Lyric Cottage, Llandygai, i Mr a Mrs Alobaid a'u tri phlentyn, o Syria. Mae'r bachgen hynaf newydd ddechrau yn ysgol y pentref.

drwy ebost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrddod, a dweud gweddi gyda ni. Braf yw gweld ambell eglwys ym Mro Ogwen yn ail agor. Am fanylion am eu gwasanaethau, rhaid cysylltu gyda wardeniaid Glanogwen, Pentir, Tregarth, Mynydd Llandegai a St Cross Talybont.

Diolch i'r Esgob ac i Mary Stallard am anfon y myfyrdodau wythnosol ar lein i bob eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir gwasanaeth Gosber drwy gyfrwng y Gymraeg ar lein bob nos Sul; gweler wefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli.

Manylion Cyswllt
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Mae'r Gwanwyn wedi hen gyrraedd Dyffryn Ogwen erbyn hyn, a'n gobaith ni i gyd yw y byddwn yn wynebu haf braf, a phawb yn parhau i fod yn ofalus, yn edrych ar ôl eu hunain ac, yn bwysicach na dim, yn edrych ar ôl ei gilydd, chwedl Tudur Owen.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Mae'r gangen yn dal yn fyw ac yn iach, er nad oes cyfle i ddod at ein gilydd hyd yn hyn, ond 'rydym mewn cyswllt â'n gilydd, ac yn gobeithio'n fawr y bydd y cyfyngiadau'n dod i ben yn fuan.

Dathlodd un o'n cynaelodau ben-blwydd arbennig yn 95 oed yn ystod mis Ebrill, sef Glenys Clarke, Ffynnon Wen, sydd yng nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Gobeithiwn fel aelodau i chwi gael pen-blwydd hapus iawn Glenys.

Dymuniadau gorau i Hedd, mab Alison, ar ei briodas gyda Jo ddydd Sadwrn y Pasg.

Anfonwn ein cofion at Beti Morris, sydd yn Plas Ogwen, Bethesda, ar hyn o bryd, ac at Elinor Holland yn ei chartref, Perthi.

Bu amryw o aelodau'r gangen yn cymryd rhan yn 'Curo'r Corona'n Camu',

gan gyfrif faint o gamau a gymerasant bob dydd yn ystod mis Ebrill. Gobaith y Mudiad yw y bydd yr holl aelodau drwy Gymru wedi cymryd 1,000,000 o gamau! Diolch eto i Myfanwy ac Alison am ein cadw ni fel cangen efo'n gilydd.

Profedigaeth

Ar Ebrill 12 daeth y newyddion trist am farwolaeth Mona Thomas yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda. 'Roedd Mona a'i phriod, Gwynfor, yn byw yn 3 Bro Derfel, Tregarth, ac wedi byw cyn hynny ym Mhenyffriddoedd, yn Fferm Dob ac yna ym Methesda, cyn symud yn ôl i Dregarth. Cydymdeimlwn â Gwynfor, y plant – Carys, Alan, Bethan, Owena, Philip a'u teuluoedd yn eu hiraeth. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Ebrill 20.

Capel Shiloh, Tregarth

Mae drysau Shiloh ar agor bob Nos Sul, am 5 o'r gloch i unrhyw un a hoffai droi i mewn am wasanaeth byr. Dilynnw ganllawiau y Cofid yn ofalus yn yr adeilad.

Mai 23: Y Parchedig Richard O Jones, Gaerwen

Mai 30: Trefniant Lleol Mehefin 6: Y Parchedig Richard Gillion

Gair neu ddau - John Pritchard

Nid wrth ei big

Nid wrth ei big y mae prynu cyfflog. Ac nid wrth ei glawr y mae prynu llyfr, neu o ran un llyfr arbennig, nid wrth ei big chwaith y mae prynu llyfr.

Mae gen i lyfrau; silffoedd llawn ohonyn nhw a dweud y gwir. Ond fyddai neb a fu gyda mi mewn oedfaon a chyfarfodydd Zoom dros y flwyddyn ddiwethaf yn deall hynny. Yn fwriadol, rwyf wedi osgoi eistedd â'm cefn at y silffoedd yn yr un cyfarfod gan nad wyf am i bawb weld yr olwg anhrefnus sydd arnynt. Mae dau reswm dros yr anhrefn: gormod o lyfrau a gormod o drefn. Oes, mae yna drefn, ac rwy'n gwybod ble mae bron pob llyfr ond dyw'r drefn honno ddim yn wledd i'r llygad nac i gamera.

Ond nôl at y cyfflog a'i big! Newydd ddeall ydw i fod un o'm llyfrau wedi bod ar y silff anghywir. Er i mi fwynhau nofel arall gan yr un awdur flynyddoedd yn ôl, ar y silff heb ei hagar y bu'r nofel hon ers i mi ei phrynu flynyddoedd yn ôl. Penderfynais ei darllen yn ddiweddar, ond siomedig oedd y penodau agoriadol: dim cyffro na dirgelwch na chymeriadau diddorol. Wrth droi pob dalen roeddwn yn dyheu am i ryw beth ddigwydd a fyddai'n rhoi cychwyn i'r stori. Wedi i mi sylweddoli nad nofel oedd hi ond hunangofiant y dechreuais gael blas ar y gyfrol!

Synnwn i ddim na chafodd llawer o bobl brofiad tebyg wrth ddarllen y Beibl. Llenyddiaeth fawr yw'r llyfr hwn i rai. I lawer o'n cyd-gymry, trysor llenyddol a sicrhodd barhad y Gymraeg dros bedair canrif oedd yr hen gyfieithiad beth bynnag.

I eraill, arweiniad ar gyfer bywyd moesol a bywyd crefyddol ydyw. I eraill eto, llyfr sy'n ein cyflwyno i'r athro a'r arweinydd y mae Cristnogion yn ei ddilyn ydyw. Llyfr hanes, llyfr llawn doethineb, llawlyfr y bywyd Cristnogol: pob math o lyfr i bob math o bobl.

Ond o'i ddarllen, mae miloedd o bobl wedi sylweddoli bod Y Beibl yn fwy o lawer na hynny. Daethant i weld mai neges Duw ydyw. Gair Duw yw'r llyfr, ac ynddo a thrwyddo mae Duw'n siarad â ni ac yn ei egluro ei hun i ni. Mae hwn yn wahanol i bob llyfr arall ac yn rhagori arnynt i gyd. Ond dim ond trwy ei ddarllen y daw neb i weld hynny: ei ddarllen yn onest gan adael iddo lefaru am gariad a daioni Duw a welir yn bennaf yn Iesu Grist.

Newyddiadurwr oedd Frank Morrison a fwriadodd ysgrifennu llyfr a fyddai'n profi nad atgyfododd Iesu Grist. Ond wrth ddarllen Y Beibl (er mwyn ei wrthbrofi) daeth yn argyhoeddedig o wirionedd ei neges. Ac felly ysgrifennodd Morrison yn hytrach lyfr a oedd yn dadlau a dangos bod yr atgyfodiad wedi digwydd. Iddo ef, trodd llyfr o gelwyddau yn llyfr sy'n tystio i'r gwirioneddau mawr am yr Arglwydd Iesu.

Mae yna fwch yn rhengoedd fy nofelau erbyn hyn wedi i mi ailgartrefu'r gyfrol ymhlith y cofiannau a'r hunangofiannau. Rhag dangos f'anwybodaeth, wna i ddim dweud pa gyfrol oedd hi. Ond o bosibl y gall y mwyaf llenyddol yn eich plith ddyfalu os dywedaf eto nad wrth ei big y mae prynu llyfr.

Cais am wybodaeth

Mae Cymdeithas Rheilffordd Penrhyn yn gofyn am gymorth darllenwyr Llais Ogwan i roi enw i'r ddau yn y llun. Maent yn tybio fod y llun wedi ei gymryd yn y Cei, Penrhyn, pan oedd lein bach y chwarel yn mynd â llechi yno i'w hallforio o'r cei. Os gallwch helpu anfonwch air ataf:

andrelomozik29@btinternet.com neu rhowch alwad. Ffôn 01248 602117



Ysgol Llanllechid

Ymddeoliad

Anfonwn ein cofion at, a’n diolch i Mrs Mona Macdonald am ei gwasanaeth yng nghegin Ysgol Llanllechid, am nifer helaeth o flynyddoedd. Bu Mrs Macdonald yn gweithio fel cogyddes, gan baratoi cannoedd o brydau blasus i’n disgyblion. Dymuniadau gorau am ymddeoliad hir a hapus i chi Mona.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Marian Jones, sydd ar hyn o bryd yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs Owena a’r teulu, a gollodd ei mam yn ddiweddar. Roedd mam Owena yn breswlydd ym Mhlas Ogwen, ac yn hapus a llon ei byd yno. Cofion annwyl atoch fel teulu; mae sefyllfaoedd fel hyn yn llawer mwy heriol yn y cyfnod Covid sydd ohoni. Derbynasom newydd trist hefyd, pan glywsom am farwolaeth brawd Mr Ady Jones, sy’n aelod o’r tîm glanhau. Anfonwm ein cofion atoch fel teulu ym Methesda a Wrecsam.

Croeso

Croesawn Mrs Rhiannon Williams atom i Ysgol Llanllechid yn gynnes iawn. Mae Ms Rhiannon yn gweithio fel cymhorthydd yn y Cyfnod Sylfaen. Gwyddom am ei doniau, a bydd yn gaffaeliad mawr i ni yma yn Ysgol Llanllechid. Croeso cynnes!

Croeso cynnes hefyd i Mario L sydd wedi cael ei benodi i weithio yng nghegin Ysgol Llanllechid. Mae gennym dîm o dri dyn yn ein cegin bellach: Mr Gavin, Mr Mario a Mr Robert Wyn! Tîm arbennig a hwyliog dros ben!



Cân Ms Lliwen

Ar Ebrill 7fed, ‘roeddem yn cofio am y ddiweddar annwyl Ms Lliwen. ‘Roedd Mrs Delyth Humphreys wedi cyfansoddi cân arbennig i gofio amdani, ac ‘roedd tad Ms Humphreys wedi cyfansoddi`r geiriau; geiriau dirdynol. Mae’n werth gwrandao ar gôr Ysgol Llanllechid yn ei chanu. Atgofion melyn am wraig a gyffyrddodd ein calonnau i gyd, gyda`i hwyl a`i direidi; atgofion fydd yn aros efo ni am amser hir iawn.



Diolch

Diolch i Mrs Ffion Jones, sydd wedi bod yn treulio amser hefo ni’n gwneud gwaith llanw. ‘Rydym yn ffarwelio â hi am y tro, gan fod Ffion yn disgwyl rhagor o deulu. Pob dymuniad da i ti Ffion, a hwyl fawr am ‘rwan!

Blodeuwedd

Bu dosbarth Ms Evans a Mrs Delyth Humphreys, sef blwyddyn 1 yn y Cyfnod Sylfaen, yn astudio stori Blodeuwedd, a daeth Pedwaredd Cainc y Mabinogi yn fyw o flaen eu llygaid!

Olion Tŷ Celtaidd

Dyna hwyl a phrofiad cwblw unigryw oedd cael bod yn archeolegwyr! Bu dosbarth Ms Gwenlli Haf yng Nghae Rhosydd, sef y safle adeiladu dros y ffordd i Faes Bleddyn, yn synnu a rhyfeddu at olion o Dŷ Celtaidd. Anhygoel credu fod hyn i gyd ar stepen ein drws!

Dysgu Barddoniaeth

Mae’r arfer o ddysgu barddoniaeth ar y côf yn parhau, ac yn ystod y cyfnod diwethaf, dysgwyd rhai o englynion coffa Hedd Wyn, Clychau’r Gog, Nant y Mynydd, Y Bwgan Brain, ac eraill.

Garddio

Er bod Mis Ebrill wedi bod yn hir iawn yn cynhesu, bu rhai o’r plant wrthi`n brysur yn garddio, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at y tatws newydd!

Ŵyn Bach

Cafodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fodd i fyw yn edrych ar ôl y ddau oen bach, a phawb wedi gwirioni`n lân! Diolch i Mrs Wilson am ddod ag ŵyn Tom i’r ysgol, i ni gael profiadau gwethfawr. Llun

Gwrth-Hiliaeth

Cafwyd gwasanaeth arbennig i gofio am Stephen Lawrence a gwreiddio’r negeseuon holl bwysig hyn ym meddyliau’r disgyblion,



gan gynnwys dangos parch at ein cyd-ddyn ymhell ag agos.

Ysgol Eco

Bu rhai o’r criw Ysgol Eco yn edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae’n anhygoel i ddweud y gwir fod y plant wedi llwyddo i gasglu 17.7 kg o sbwriel, sef 9 bag bin, mewn awr a hanner ar Lôn Bach Odro! Mae hi’n anodd gwybod beth i ddweud; ‘roedd y plant eu hunain wedi’u syfrdanu bod cymaint o lanast ar hyd y llwybr yma! Diolch i Mr Rowlinson am gael benthyg y ffyn codi sbwriel.

Gwobr Dunelm

Diolch o galon i rieni a ffrindiau’r ysgol am ein cefnogi drwy bleidleisio i Ysgol Llanllechid. Ein hysgol ni gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau, a’r wobwr oedd offer Addysg Gorfforol gwerth chweil! Diolch i bawb!

Diwrnod Golchi Ers Stalwm

Cafodd dosbarth Mrs Bethan Jones weithdy llawn bwrlwm yn dysgu am arferion glanhau a golchi dillad ers talwm!

Teithiau Iach

Llongyfarchiadau i Ysgol Llanllechid ar ddod yn bymthegfed drwy Gymru yn yr Ymgyrchu Teithiau Iach i’r ysgol! Da iawn chi blant os am ddod ar eich sgwteri a beicio, ac i bawb sy’n cerdded yn ddyddiol. Daliwch ati!

Llongyfarchiadau

Dymuna pawb yn Ysgol Llanllechid longyfarch y prifardd Ieuan Wyn ar gael ei urddo yn Gymrawd gyda’r Coleg Cymraeg.

post@llaisogwan.com

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Tafarn Y Faenol

Mae'r dafarn wedi bod ar gau ers cychwyn cyfnod clo cyntaf Covid-19. Penderfynodd y tenantiaid beidio adnewyddu eu cytundeb gyda'r bragdy, ac yn dilyn hyn, rhoddwyd y dafarn ar y farchnad. Yn ddiweddar mae'r dafarn wedi ei gwerthu i unigolyn lleol, a'r ddealltwriaeth ydyw bod trafodaethau yn mynd ymlaen ynglŷn ag ail agor yn y misoedd nesaf.

Dymuniad y gymuned ym Mhentir oedd gweld y dafarn ar agor unwaith eto a mawr obeithir y bydd canlyniad positif i'r trafodaethau gyda'r perchennog newydd. Felly, mae'r syniad o'r dafarn yn cael ei rhedeg fel menter gymunedol wedi dod i ben.

Y Wiwer Goch

Mae'r wiwer lwyd wedi disodli'r wiwer gynhenid yn yr ardal ers blyneddau lawer. Gwelwyd gwiwer goch yn y cyffiniau yn ôl yn yr 80au, ond nid ers hynny. Eto, yn ddiweddar mae sawl adroddiad yn datgan bod y wiwer goch wedi ei gweld ar ochr Pentir o Goedlan Parc y Bwlch.

Coedlan Parc y Bwlch

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu eu cynllun ar gyfer y goedlan ac yn gofyn i ardalwyr anfon eu safbwyntiau iddynt ynglŷn â rheoli'r goedwig ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Os oes gennych farn gref, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac i'r adran 'Cynllun Coedwig Abergwyngregyn, Braichmelyn a Parc y Bwlch'.

Croeso i'r Ardal

Hoffem estyn croeso cynnes i'r ardal i Rhian a Cefin Roberts sydd wedi symud i Bentir o Fangor.

Dymunwn yn dda iddynt gan obeithio eu gweld yn rhodio ein llu o lwybrau cyhoeddus gan fentro i ben Moelyci.

Hefyd, mae Steffano, Alis a'r plant wedi ymgartrefu yn Craigfryn, yr un croeso iddynt hwy.

Tir Dewi



Mae llawer o ffermwyr a'u teuluoedd sy'n brwydro i ymdopi â'r pwysau a ddaw o redeg fferm. Yn 2015, yn dilyn sgwrs rhwng y Cyn- Esgob Wyn a'r Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Ceredigion, daeth y ddau i'r casgliad nad oedd cefnogaeth ar gael i ffermwyr. Felly sefydlodd Eileen, (sydd hefyd yn rhedeg fferm ddefaid a gwartheg gyda'i theulu) yr elusen 'Tir Dewi'. Dechreuodd fel elusen fechan yn cynnig cefnogaeth i bob ffermwr yn y tair sir yng Ngorllewin Cymru. Fis Awst diwethaf, estynnwyd y gefnogaeth honno i Ogledd Cymru a bûm yn ddigon ffodus i gael fy nghyflogi fel Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Gogledd Cymru ac yn ddiweddarach fel Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Hyd yn hyn, mae gwirfoddolwyr Tir Dewi wedi helpu dros 300 o deuluoedd ffermio gydag amrywiaeth o faterion, problemau, gofidiau, heriau ac y mae'r nifer yn codi yn ddyddiol. Mae Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol am ddim gyda'r dewis o drafod gyda rhywun yn Gymraeg neu Saesneg 7 diwrnod yr wythnos, o 7 yb tan 10 yb. 'Rydym hefyd yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb.

Yr wyf wastad wedi bod yn ymwneud ag amaethyddiaeth mewn un ffordd neu'r llall, ac y mae gennyf lawer o atgofion melys o helpu fy nhad gyda'r defaid, gan gymryd diwrnod i ffwrdd o'r ysgol i godi'n gynnar ar foreau haf cynnes i fynd ag ŵyn i'r farchnad, heb orfod poeni am lenwi trwydded, tagio'r ŵyn na meddwl 'Ydy'r trelar yn ddigon glân?'. Dyddiau hapus, di-straen. Mae pethau wedi newid yn arw iawn ers hynny: un rheol newydd ar ôl y llall, un cyfrifoldeb ychwanegol,

un boen ychwanegol heb fawr o gymorth, dim arian ychwanegol a dim llawer o ddealltwriaeth, heb sôn am ddiolch.

Nid oeddwn wedi deall yn iawn faint o bwysau sydd ar ffermwyr, nes i mi orfod cymryd drosodd daliad fy nhad wedi ei farwolaeth. Yr oedd y cyfrifoldeb ariannol, gwaith papur, trin y tir a phrynu a gwerthu anifeiliaid i gyd yn newydd i mi, heb sôn am y pwysau o orfod sicrhau bod y ffurflen BPS yn gywir. 'Roedd colli anifail ac yna gorfod talu rhywun i gael gwared ohono yn rhwystredig iawn. Ni ddeallais erioed sut y gallai rhywbeth mor syml â thorri gwair allu achosi i mi deimlo mor boenus, yn sicrhau bod yr amseru'n iawn cyn daw'r glaw. Buan iawn y sylweddolais fod hyn yn dod a llawer iawn o boen meddwl arnaf nad oeddwn yn ei ddisgwyl, yn ogystal â rhedeg tŷ, teulu a gweithio llawn amser.

Bum mlynedd yn ddiweddarach fe wnes y penderfyniad anodd i roi'r gorau i'r tir, ar ôl tair blynedd o ystyried a sawl noson ddigwsg yn pendroni beth i'w wneud a beth fyddai fy nhad yn ei feddwl. Yna fe aeth rhent y tir i fyny ac fe

wnaethpwyd y penderfyniad drosof. Diflannodd gofidiau'r blyneddau diweddar dros nos, ac fe gefais amser i alaru am fy nhad; amser nad yw llawer o ffermwyr yn ei gael. Nid oes y fath beth ag "annual", "sick" neu "compassionate leave" i'w gael i ffermwyr, mae'n rhaid iddyn nhw gario ymlaen.

Ond oes rhaid? Neu allech chi ofyn am help, help a allai esmwytho peth o'r boen, y baich neu'r pwysau, gan adael i chi gael amser i feddwl, blaenoriaethu a theimlo eich bod yn cael eich cynnal?

Bydd yr atgofion gyda fi am byth, a dwi'n teimlo'n freintiedig am hynny. Felly, diolch i chi Dad, a diolch i'w holl ffrindiau am gynnig helpu yn ystod y pum mlynedd hynny. Wrth edrych yn ôl, fe ddylwn fod wedi derbyn eu cynigion caredig, ond roeddwn i'n rhy falch.

Teimlais yn unig iawn yn ystod y pum mlynedd hynny, ond hefyd yn lwcus iawn i gael gŵr cefnogol a fagwyd ar fferm ond heb ddiddordeb mewn ffermio, a allai ddeall, a gwrando heb fy marnu. Roeddwn yn ei chael yn hawdd siarad efo fo.

Rwy'n gobeithio y bydd rhannu fy mhrofiad yn helpu rhywun allan sy'n cael bywyd yn anodd, am wahanol resymau i ddeall bod siarad yn help. Mae tîm o wirfoddolwyr caredig, llawn empathi yn Tir Dewi, sy'n barod i wrando, a'ch cefnogi beth bynnag a rannwch. Felly galwch **0800 121 47 22** neu fy ngalw i yn uniongyrchol ar **07483399937** am gymorth cyfrinachol am ddim.

Hefyd, os oes diddordeb gennych, yr wyf wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i ymgymryd â gwahanol roliau o fewn yr elusen, felly cysylltwch â mi i glywed mwy.

Delyth Owen

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Cofnod neu ddau eto o ddyddiaduron David D. Evans (Dafydd Ifans, Glanrafon, Gerlan).

Ionawr 12, 1951: Priod y diweddar James Jones, James Street, Braichmelyn, yn marw – 80.

‘Chlywais i ’rioed neb yn galw’r wraig hon wrth ei henw cyntaf; Mrs James Jô’s oedd hi i bawb. Mae gen i gof plentyn ifanc iawn o’i gweld yn cerdded, yn ddigon tlodaidd ei golwg, rhwng ei chartref yn Rhes Jâms a Siop Mrs Mary Johnson yn rhan isaf Braichmelyn. Ni chofiaf ei gŵr o gwbl ond

‘Chlywais i ’rioed neb yn galw’r wraig hon wrth ei henw cyntaf; Mrs James Jô’s oedd hi i bawb.

dw i ddim yn meddwl mai ar ei ôl o y cafodd y stryd ei henw!

Mae dau beth wedi aros yn fy nghof, sef yn gyntaf, mam yn sôn fel y byddai’n chwarae pan oedd yn blentyn efo merch Mrs James Jô’s, sef Emily Bach, fel y cyfeiriai mam ati gydag anwyldeb. Pwtan fechan oedd Emily a chofiaf ei chyfarfod pan oedd wedi ymgartrefu ym Mangor ac wedi hynny wedi iddi symud i gartref gofal.

Roedd gan Emily frawd o’r enw Lloyd a oedd yn dioddef o glefyd cricmala er pan oedd yn ifanc. Cofiai mam i Mrs James Jô’s gael cyngor gan rywun sut i drin cricmala Lloyd. Roedd i fynd i’r ardd wedi iddi ddechrau tywyllu a hel cymaint ag a fedrai o falwod duon (digragen) a’u rhoi nhw mewn sosban a rhoi honno wedyn ar y tân. Byddai hynny’n troi’r malwod yn hylif ac, wedi iddo oeri, cynghorwyd hi i’w rwbio’n dda ar y mannau ar gorff Lloyd lle’r oedd y cricmala fwyaf poenus.

Un gyda’r nos, aeth Mrs James Jô’s allan i’w gardd fechan o flaen ei chartref yn Rhes Jâms a chyda sosban go fawr yn ei llaw i ddal yr helfa, aeth ati i chwilio am y malwod iachusol. Cafodd gasgliad helaeth, yn ôl pob sôn, a throï am y tŷ yn y man a tharo’r sosban ar fwrdd y gegin yn barod am ran nesaf yr antur yn y bore, sef rhoi’r sosban ar y tân, pan fyddai hwnnw wedi cynnau’n iawn, a chael yr hylif llesol yn y man i’w rwbio ar groen Lloyd.

Ond O! Mrs James Jô’s druan! Erbyn iddi gyrraedd y gegin yn y bore, roedd y sosban yn gwbl wag a’r malwod wedi mynd ar grwydr dros waliau’r gegin i gyd, rhai ar y dodrefn a rhai eraill yma ac acw ar hyd y llawr. Gyda chalon drom, bu’n rhaid i Mrs James Jô’s gynnal helfa arall – y tu mewn i’r tŷ y tro hwn!

Wn i ddim a fu helfa arall yn yr ardd na chwaith a gafodd Lloyd druan wared â’i gricmala!

DIOLCH ARFON

SIÂN GWENLLIAN AS



Plaid Cymru
Party of Wales



post@llaisogwan.com

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Wrth i'r Cyfnod Clo gael ei lacio, a'r awel gynhesu, mae ychydig mwy o obaith y cawn ail-ddechrau cymdeithasu. O leiaf, dylai fod yn haws wedyn i gasglu newyddion i'r 'Llais'!

Genedigaeth

Bu bron imi fethu â chredu bod babi bach newydd wedi cyrraedd 34, Cae Gwigin ers pedwar mis, a ninnau'n gwybod dim amdano!
Ganwyd George Wynne i Dee a Ben ar Wyl San Steffan. Mae o'n frawd bach i Lewis a Matthew. Pob bendith arnat, George bach, ac ar y teulu oll. Edrychwn ymlaen at dy weld yn mynd am dro yn y goits heibio'n tŷ ni cyn bo hir. Peryg iawn mai cerdded heibio y byddet ti, oni bai imi ddigwydd gweld dy fam yn yr ardd yr wythnos ddiwethaf!
Pobl ifainc yn llwyddo
Mae'n braf bob amser clywed am lwyddiant pobl ifainc y pentref. 'Rydym yn eu cofio'n cael eu geni! Gwelsom hwy'n mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, ac erbyn hyn maent wedi

tyfu'n oedolion dymunol a chymwynasgar.
Mae Billy Jones, 33, Cae Gwigin, wrthi'n brysur yn bwrw ei brentisiaeth fel torrwr gwallt. Efo Danny Barbwr ym Mangor y mae ar hyn o bryd, ac yn gweithio'n ddygn tuag at y lefel nesaf ar ei ffordd i gymhwyso'n llawn. Ac yntau'n berchen ar foto-beic, mae'n edrych ymlaen at wneud rhywfaint o waith symudol yn y dyfodol. Pob lwc iti, Billy. 'Dw i'n siwr y cei yrfa lwyddiannus iawn.
Mae Seren Unsted, 3, Dolhelyg, wedi cael ei derbyn ar gwrs Therapi Deintyddol ym Mhrifysgol Caeredin. Bydd hi'n cychwyn yno ym mis Medi. Cafwyd bron i ddau gant o geisiadau am ddeg lle ar y cwrs, a Seren yn llwyddo i ennill un ohonynt. Tipyn o gamp! Pob bendith arnat tithau hefyd, Seren, yn dy yrfa ddewisedig. 'Fedra'i ddim meddwl am neb gwell na thi i weithio yn y maes yna.
Gwellhad
Bu nifer o drigolion Talybont yn ôl a blaen i Ysbyty Gwynedd yn ystod y Cyfnod Clo. Yn anffodus, oherwydd cyflwr bregus ei ieuchyd, ni chafodd Idris Thomas y driniaeth ddisgwyliedig ar ei lygaid, ac mae'n ôl adref. Gobeithio y bydd yn bosibl iddo fynd amdani'n nes ymlaen yn y flwyddyn.
Nid yw Bill Morrell, 4, Dolhelyg, wedi bod yn ei hwyliau gorau yn ddiweddar. Brysia wella, Bill!
Mae Keith Jones, 13 Dolhelyg, wedi profi

Capel Bethlehem

Diolch i'r criw bach fu wrthi'n brysur yn glanhau'r capel a'r festri cyn ail agor yr adeilad ar gyfer 2il o Fai, pan gynhaliwyd ein hoedfa gyntaf ers mis Rhagfyr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Ef hefyd fydd yn gofalu am ein hail oedfa, a gynhelir ar 23 Mai, sef y Sulgwyn, a hynny am 2 o'r gloch.
misoedd o anhwylder yn ystod y Cyfnodau Clo. Erbyn hyn, mae'n teimlo cryn dipyn yn well, ac yn awyddus i ddiolch o waelod calon i Nyrsus Bro Bethesda a Bangor am eu gofal mawr ohono, ac i bawb sydd wedi bod yn gefn iddo yn ystod amser annifyr iawn yn ei hanes.
Credaf bod gennym ni, y cymdogion, le mawr i ddiolch i Keith a Sandra am eu caredigrwydd di-baid. Er gwaethaf afiechyd, a phob rhwystr arall, maent yn barod eu cymwynas i ni bob amser. Rhodd amhriadiadwy yw cymydog da.
Dymunwn wellhad llwyr a buan i bawb arall o'r pentref sydd wedi bod yn sâl, neu'n teimlo'n drist, yn ddiweddar. Gobeithio y cawn haf braf, er mwyn i chi gael mynd allan a mwynhau cwmni'r teulu a ffrindiau.

Nythu

Helo! Nia Hâf 'dw i. Dw i'n gweithio i Frân Wen, cwmni theatr sy'n cynnig cyfleoedd celfyddydol a chymdeithasol i bobl ifanc ledled Gogledd Orllewin Cymru (a thu hwnt!).
'Dan ni ar hyn o bryd yn y broses o godi arian tuag at ein cartref newydd yng nghanol dinas Bangor. Bydd Nyth - sydd wedi ei leoli ar dir yr hen Eglwys Santes Fair - yn hwb cyffrous, yn cynnig profiadau a chyfleoedd i'n pobl ifanc a'n cymuned. Bydd Nyth yn galluogi Frân Wen i gyrraedd mwy o gymunedau, gweithio gyda mwy o artistiaid, a chyrraedd mwy o bobl ifanc.
Nid cartref newydd i Frân Wen yn unig fydd Nyth! Mae pobl ifanc yn ganolog i'r cwmni, ac mae eu lleisiau nhw yn treiddio drwy bob elfen o'r gwaith - o'r

gweithgareddau cymunedol, prosiectau amrywiol, a'r holl gynhyrchiadau. Bydd Nyth yn ein gallugoi i gario ymlaen efo'r gwaith yma o uno gwaith y gymuned, artistiaid, a phobl ifanc.
I sicrhau bod ein gweledigaeth o gynnig yr adnodd yma i'n cymunedau yn cael ei wireddu, mae angen i ni godi £30,000 er mwyn i Nyth gael ei orffen. 'Rydym yn dibynnu ar bobl sy'n awyddus i weld ein gweithgarwch yn ffynnu i'n helpu i gyrraedd ein targed. Mae ein drysau ni wastad ar agor, felly os 'dach chi'n nabod person ifanc fyddai'n hoffi bod yn rhan o deulu Frân Wen, gallai eich cyfraniad chi ein galluogi ni i'w cyrraedd nhw.
Os ydych yn awyddus i'n



cefnogi, gallwch wneud hynny drwy fynd ar y we i www.franwen.com/Nyth30k, neu drwy anfon neges destun at 70085 gyda'r neges NYTH30K a swm eich cyfraniad (e.e. bydd neges yn dweud 'NYTH30K 10' yn cyfrannu £10), neu gallwch gyfrannu trwy ein ffonio ni ar 01248 715048.

Côr y Penrhyn gyda Derfel Roberts

Croeso yn Aberdeen

Ym mis Ebrill 1976 teithiodd aelodau Côr y Penrhyn i fyny i Aberdeen yng ngogledd ddwyrain yr Alban i gynnal cyngerdd, ac isod gwelir yr adroddiad am y daith honno gan Caeron Roberts, ysgrifennydd y côr ar y pryd.

Cafodd 1050 o drigolion rhanbarth Grampian gyngerdd gan Gôr y Penrhyn ac unawdwyrs nos Sadwrn Ebrill yr ail mewn Neuadd gyngerdd yng nghanol Aberdeen. Hwn oedd y cyngerdd cyntaf erioed yn Aberdeen (y ddinas wenithfaen) gan gôr Cymreig.

Teithiodd y côr am bedair awr ar ddeg i'r Alban drwy Glasgow, gan ddychwelyd ar hyd ffordd wahanol, drwy Gaeredin. Anrhegwyd Cadeirydd y Côr, Harri Roberts, gyda bwrdd coffi gwenithfaen, ac anrhegwyd yr arweinydd, Rowland Wyn Jones, â phaentiad tirlun, y ddau gan Gymdeithas Gymreig Aberdeen. Dim ond hanes y côr a'r ymweliad oedd ar dudalen flaen yr Evening Express!

Côr Bethesda Uda a Chôr Bethesda Cymru

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud y byddai côr cymysg o tua 50 o leisiau ac unawdwyrs o'r Unol Daleithiau'n rhoi cyngherddau yn ystod yr wythnosau canlynol. Roedd y côr hwnnw'n dod o Eglwys Undodaidd River Road, ym Methesda, Maryland a dywedir mai 'priodol' oedd bod eu cyngerdd olaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei gynnal yn Ysgol Dyffryn Ogwen gyda Chôr y Penrhyn yn cynorthwyo. Pris tocyn i'r cyngerdd hwnnw oedd 'chweugain' neu 50 ceiniog ym mhrisiau heddiw. Arhosodd aelodau'r côr Americanaidd yn Nyffryn Ogwen dros y penwythnos a threfnwyd eu bod yn mynd i gael croeso swyddogol gan gynrychiolwyr o Gyngor Arfon.



JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995



Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Michael Williams (Meics) sy'n weithiwr cefnogol ac yn is-reolwr.

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Michael Williams (Meics) sy'n weithiwr cefnogol ac yn is-reolwr.

Be' ydy dy enw llawn?
William Michael Williams

Oed? R'un oed â bawd fy nhroed (48)

Gwaith Is-reolwr a gweithiwr cefnogol

Lle wyt ti'n byw? (Mewn tŷ – ha,ha,ha)
Yn Rachub

Un o lle wyt ti'n wreiddiol? Bethesda ond wedi byw yn Gerlan cyn hynny

Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?
Hwyliog, caredig, ac yn mwynhau tynnu coes pobl

Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr
Tua 8 neu 9 mlynedd

Pa lais wyt ti?
Dw i yn y llais gorau yn y côr – Tenor 1

Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
Wedi meddwl ymuno ers blynyddoedd ond ddim wedi cael amser tan ges i fy mherswadio gan aelodau o'r côr

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
Cwestiwn anodd, achos dwi'n hoffi caneuon hefo dipyn o fynd ynddyn nhw a phryd mae'r tenoriad cyntaf yn cael taro'r nodau uchel.

Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?
Does gen i ddim ffefryn achos dwi'n hoffi gwrando ar bob dim.



Beth ydy dy farn di am ganu pop?
Ddim yn hoff iawn ond ar y cyfan mae'n well gen i ganeuon y 70/80 au

Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr? Oes, ond ddim yn addas i Llais Ogwan! Mae yna amryw – America, Glastonbury, a gemau rhyngwadol Rygbi Cymru. I ddweud y gwir mae pob ymweliad gyda'r côr wedi bod yn dda, a hynny am resymau gwahanol.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr? Gwylïo chwareon, cerdded, gwylïau ac amser i ffwrdd gyda'r teulu i wahanol lefydd ar draws y byd.

Oes yna ryw beth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Fedra i ddim meddwl am ddim achos mae'r côr yn llwyddiannus iawn tydi. Byddai mwy o dripiâu yn braf ella a chael gwared o'r bobl flin (ha,ha,ha), heb enwi neb!

Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr? Diolch i'r côr am groesawu rhywun fel fi a gobeithio y cawn ni ddod at ein gilydd yn o fuan eto i gael canu a chael ambell i drip hwyliog.



Arbenigwr mewn lloriau coed caled

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwers Lletygarwch – Coginio’n Fyw!

Cafwyd gwaith arbennig ac ymdrech wych gan griw Lletygarwch blwyddyn 10 ddechrau Mawrth wrth iddynt goginio’n fyw o adref. Casglwyd y pecynnau cynhwysion o’r ysgol yn barod at y sesiwn. ‘Roedd y cacennau caws wedi eu haddurno yn fendigedig. Diolch i Mrs Mitchelmore a Ms Tracey Owen am eu harwain.



Cystadleuaeth Ddadlau

Am y tro cyntaf ers sbel, bu criw o flynyddoedd 10, 11 a 12 yn cymryd rhan mewn cystadlaethau Dadlau (yn yr iaith Saesneg) o dan arweiniad Mr. Dylan Jones, gan gystadlu yn erbyn ysgolion megis Howell, Esgob Llandaf a Choleg 6ed Dosbarth yng Nghaerdydd! Llongyfarchiadau arbennig i Beca Dafydd a Luned Elfyn ar gyrraedd y rownd derfynol.

Wythnos Iechyd a Lles

Bu staff yr ysgol yn ymarfer yn ddyddiol trwy Chwefror, gan anelu i deithio pellter o ddwywaith o amgylch Cymru (3370 km) fel rhan o ymgyrch iechyd a lles. Cyflawnwyd 4168 km yn y diwedd gyda chyfuniad o wahanol weithgareddau.

Cwis y Pennaeth

Cynhaliwyd Cwis y Pennaeth ar lein yn ddiweddar, a bu i dros 60 o rieni, disgyblion a staff gymryd rhan. ‘Roedd yn noson lwyddiannus iawn gyda Dr Huw Jones (aelod o Lywodraethwyr yr ysgol) a’i deulu yn fuddugol, Mr Dylan Jones (dirprwy bennaeth) a’r teulu yn ail, a Gwydion Rhys (prif ddisgybl) a’r teulu yn drydydd. Derbyniodd y buddugwyr becyn o nwyddau Cadwyn Ogwen yn wobrau.

Cystadleuaeth Dydd Gŵyl Dewi

Bu disgyblion CA3 yn brysur yn ysgrifennu darn o ryddiaith ar y testun ‘What Wales means to me’ ar gyfer tasg Dydd Gŵyl Dewi yr adran Saesneg. Llongyfarchiadau i Lloer Gwilym ar ddod yn gyntaf yn y

gystadleuaeth, gyda Leah Evans a Bobi Jac Pritchard yn gydradd ail. Y beirniad oedd aelod o’r Llywodraethwyr, sef Caroline Jones, a dyma oedd ganddi hi i’w ddweud:

Cafwyd disgrifiad hyfryd o Gymru gan **Lloer**, ac ‘rwyf yn hoffi’r ffordd y mae’n cyplysu hanes a threftadaeth. Fy hoff ran o ysgrif Lloer yw’r frawddeg olaf: ‘Efallai mai dim ond ysmotyn bychan yn y bydysawd yr ydym yn byw ynddo yw Cymru, ond mae hi’n werth y byd i mi.’

Mae **Leah** wedi ymchwilio cryn dipyn i hanes Cymru a’i chwedlau, ac mae Cymreictod yn ei llenwi â brwdfrydedd – meddai: “ ‘Rydym ni yma o hyd, ac ‘rydym ni yma i aros’ – ‘rwyf yn hoffi hyn.

Mae Cymreictod **Bobi** yn ei llenwi â brwdfrydedd, ac ‘rwyf yn hoffi’r ffordd y mae’n ein gweld fel cenedl sydd yn ofalgar a chyfeillgar. ‘Rwyf hefyd yn hoffi’r ffordd y mae’n disgrifio bod yn Gymro fel hyn: “fy hunaniaeth, fy nghartref, fy hanes, a’m dyfodol”.



Bobi Jac Pritchard a Leah Evans

Llongyfarchiadau hefyd i Sam Lee blwyddyn 10 a oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth ar gyfer CA4.

Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys ar ennill cystadleuaeth gyfansoddi bl.12-13 y Gwasanaeth Cerdd, - dyma linc i’r cystadlu. https://www.youtube.com/watch?v=JOOXX_VLxNk

Mae’r Adran Wyddoniaeth wedi bod yn cynnal nifer o weithgareddau i ddatlu wythnos STEM, gan gynnwys canfod manylion nifer o gyn-ddisgyblion sydd yn gweithio yn y meysydd yma. Dyma linc i’r galeri o rai ohonynt: <https://sites.google.com/hwbcymru.net/gwyddoniaethdydo/gyrfaoedd-mewn-stem/cyn-ddisgyblion-mewn-stem> os y gwyddoch am fwy, mae croeso i chwi gysylltu ag anng@ydo.cymru

Llongyfarchiadau i Natalie Owen bl.12 ar gael ei dewis i gynrychioli pobl ifanc y dalgylch fel llysgennad ar banel Partneriaeth Tirwedd y Carneddau.



Lloer Gwilym a Lois Ryder

Diwrnod y Llyfr

Lansiwyd e-lyfr digidol ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni, a chafwyd neges ysbrydoledig gan Manon Steffan Ross i ddisgyblion yr ysgol. Derbyniodd bob plentyn becyn Diwrnod y Llyfr a thaleb tuag at brynu llyfr o’u dewis eu hunain. Cynhaliwyd nifer o gystadlaethau, yn cynnwys cwis cymeriadau llyfrau, a daeth Lloer Gwilym, Lois Ryder, Hannah Hughes a Gwen Isaac yn fuddugol.

Ymdddeoliad

Diolch i Mrs Ann Jones am ei gwaith am dros 36 o flynyddoedd yng nghegin yr ysgol. Pob dymuniad da iddi ar ei hymddeoliad.





post@
llaisogwan.
com

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Cydymdeimlo
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ac o Abercaseg, yn 73 oed bu farw Douglas Hughes, gynt o Bro Rhiwen. Symudodd y teulu o Efail Castell i fyw yn Rhiwlas. ‘Roedd ei dad a’i daid yn ofaint ac ‘roedd ei dad yn ogystal yn ôf yn Chwarel Dinorwig. ‘Roedd Douglas yn wŷr i’r ddiweddar Elisabeth, ac yn dad i Carys a Marian. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu, ac at ei chwaer, Catherine.

Podlediad
Rai wythnosau yn ôl bu Manon Steffan yn westai ar “Heno” yn trafod podlediad o’r enw ‘Colli’r Plot’. Grŵp o awduron, sef Siân Northey, Bethan Gwanas, Dafydd Llewelyn a Manon ei hun sy’n cyfrannu eitemau i’r podlediad, a ddisgrifir fel “pedwar awdur sy’n bustachu efo plotiau yn gyson ac yn aml yn ei cholli hi. Fe fydd yna lot o chwerthin, ychydig o bethau dadleuol ac ambell i sgwrs ddwys”. Mae’n swnio’n ddiddorol iawn.

Ar y radio
Un arall a fu ar y cyfryngau oedd Cadi Iolen, Cae Glas. Yn ystod Mis Ebrill cafodd Cadi ei chyfweld ar gyfer rhaglen Radio Cymru “Tros Ginio”. Y testun o dan sylw oedd pwysigrwydd curadu safleoedd hanesyddol o bwys. Bu Cadi hefyd yn trafod tirwedd llechi Gorllewin Cymru ar gyfer Treftadaeth Byd UNESCO.
Braf oedd clywed y ddwy yn sôn am eu gwaith.

O Gofnodion Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Diolch i’r Gynghorydd Elwyn Jones am anfon bwriad grŵp o’r enw ‘Incredible Edible’ ymlaen. Yn anffodus, nid ydynt wedi cysylltu â’r Cyngor Cymuned o gwbl. Eu bwriad yw plannu coed o gwmpas y parc chwarae. O edrych ar amcanion y grŵp, mae ganddynt sawl syniad i wella ar harddwch, a phlannu coed cynhenid, ond ‘roedd y Cyngor Cymuned yn bryderus ynglŷn â thybed pwy sydd yn mynd i gynnal a chadw hyn i gyd. Fodd bynnag, mae’r caniatâd i blannu coed cynhenid ar ochor Caeau Gleision wedi’i roi gan Gyngor Gwynedd. Cyfeiriwyd at fainc sydd wedi torri yn y cae chwarae, ond nid y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am hon.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Jean Vaughan Jones, Hafod Lon, – yn ddiweddar fe ddaeth yn llwyddiannus gyda chroesair yn ‘Y Wawr’. Derbyniodd gopi o’r llyfr ‘O’r Cysgodion’ yn wobr. Da iawn Jean!

Hynt a helynt y Gog
Fel arfer, daw’r gog i Cae Mawr a Bronnydd o gwmpas Ebrill 18, ond eleni ni chyrhaeddodd tan Ebrill 23. Tybed beth oedd yn gyfrifol am ei bod yn hwyrach eleni? Ymddengys bod dwy yno, ac mae Richard Bronnydd yn dweud bod un ohonynt wedi bod yn dod ers dwy flynedd, ond mae’n amau hynny oherwydd mae patrwm ei chân yn wahanol ac yn unigryw, meddai ef. Dyma hen bennill a dderbyniais gan ffrind yn ddiweddar:

Hardd yw’r cennin ar y dolydd,
Hardd yw’r gog uwchben y gweunydd,
Hardd yw’r wŷn ar dwyni’r dyffryn,
Harddach fyth yw cwmni rhywun.

Yn ystod cyfnod y pandemig yma mae sawl teulu wedi colli cwmni rhywun oedd yn annwyl iddynt. Mae pethau’n gwella a’r rhaglen frechu yn hwb mawr. Gobeithio bod pobl hefyd yn parhau i ddilyn y canllawiau. Cofion atoch, a chadwch yn ddiogel.

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Wedi pum mlynedd o wneud y swydd nid oedd yn syndod i Siân Gwenllian cael ei hail-ethol unwaith eto i fod yn aelod o’r Senedd dros bobl yr etholaeth hon ar Fai 6ed eleni. Mae hi wedi gweithio’n ddiflino dros y pum mlynedd dwethaf ac yn wyneb cyfarwydd yn y Dyffryn. Fel i bawb arall, blwyddyn ryfedd fu hon i gangen Dyffryn Ogwen o Blaid Cymru. Bu pum mlynedd ers yr etholiad ddiwethaf i ethol aelod i Gynulliad Cymru yng Nghaerdydd. Eleni buom yn ethol aelod i Senedd Cymru. Profiad newydd a gwahanol iawn hefyd oedd yr ymgyrchu hefyd heb agosatrwydd a’r pwyllgorau dros lwyfan digidol Zoom.

Cofiwch bod rhifau ffôn eich Cynghorwyr Sir Plaid Cymru yn y Llais.

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwyrDyffrynOgwen  @PlaidCymruOgwen

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Difyrion Digidol – ‘Popeth yn Gymraeg’? Deian ap Rhisiart

Gyda chyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ym 1588 gan yr Esgob William Morgan, ynghyd â chyfieithiadau gramadeg John Davies, Mallwyd, mae haneswyr yn gweld y cyfnod hwn fel un hynod arwyddocaol yn hanes a goroesiad yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal â'r cerrig milltir hyn, gyda'i ysgolion cylchynol yn y ddeunawfed ganrif, sicrhodd Griffith Jones, Llanddowror fod llythrennedd yn cael ei gyflwyno i werin gwlad a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy wibio mewn peiriant amser i'r ugeinfed ganrif, gwelwn yn y 60au ffrwydriad cerddoriaeth boblogaidd Gymraeg, gydag artistiaid blaenllaw fel Dafydd Iwan a Huw Jones yn esgori ar Sin Gerddoriaeth Gymraeg ffyniannus sydd yn dal gyda ni heddiw. Ond beth, meddech, sydd a wnelo hyn â'r byd digidol? Trwy wibio eto i'r unfed ganrif ar hugain, gwelwn chwyldro arall yn digwydd - y chwyldro digidol - lle y bydd galw ar y Gymraeg i esblygu a goroesi unwaith yn rhagor.

Er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cofleidio'r byd digidol, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar wedi galw am sefydlu menter iaith ddigidol er mwyn datblygu cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, beth sydd ar gael ar hyn o bryd? Yn sicr, mae yna fylchau sylweddol, ond ar y llaw arall, mae yna hefyd doreth o gynnwys ar gael yn Gymraeg. Ac mae'n holl bwysig ein bod yn ei ddefnyddio! Rwy'n siŵr eich bod yn gyfarwydd iawn â llawer o'r adnoddau a'r gwefannau sy'n bodoli eisoes.

O ran y newyddion, wrth gwrs, gellir darllen gwefan <https://golwg.360.cymru/> neu <https://bro.360.cymru/> i ddarllen newyddion o'ch milltir sgwâr.

Mae www.Lleol.cymru yn ffordd dda o gadw llygaid ar newyddion lleol a chenedlaethol heb sôn am chwilio

am swydd lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol.

Datblygiad newydd iawn yw dyfodiad ap newydd Newyddion S4C sydd yn wasanaeth cwbl newydd, - gellir llwytho'r ap ar Google Play drwy'r ddolen hon: <https://play.google.com/store/apps/details?id=cymru.s4c.newyddion>

Un o wefannau mwyaf y Gymraeg yw BBC Cymru Fyw, - ceir yno lond gwlad o erthyglau, cyfweiliadau ysgrifenedig ac eitemau fideo o'r ysgafn i'r difrifol i gyd mewn un lle: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw>

Digon i'ch cadw'n brysur am oriau! Gwasanaeth fideo poblogaidd tu hwnt yw Hansh <https://www.facebook.com/hanshs4c/>, lle y trafodir pob mathau o bynciau mewn ffordd gynnil a difyr. Mae Hansh wedi gweld cannoedd o filoedd yn clicio ar fideos megis y cogydd Chris Roberts o Gaernarfon.

Mae'n werth hefyd croesawu gwefan newydd wych y Papurau Bro, sy'n brosiect ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru <https://papuraubro.cymru/> Ewch yno i chwilio am eich papur bro chi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r ap a'r plattfform cymunedol Ambobdim wedi sefydlu'i hun ymhlith y plattfformau mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg, gan ddarparu cyngherddau, cyfweiliadau, gigiau a gwyliau i ddiddanu pobl o foethusrwydd eu sofffa. Mae'n werth galw heibio ar wefan Ambobdim <https://www.amam.cymru/ambobdim> i weld beth sydd ar y gweill - mae'n wefan brysur tu hwnt sy'n llawn o gynnwys diddorol.

Ni ellir anghofio am yr holl gynnyrch sydd hefyd ar wefan ffrydio cerddoriaeth <http://www.spotify.com>, neu <http://www.youtube.com>, boed yn gerddoriaeth Gymraeg neu'n archif ffilm, neu'n

wefannau fel Llên Natur ar Facebook.

Er mwyn cael mynediad i'r holl bodlediadau Cymraeg sydd ar y We, ewch i'r <https://ypod.cymru/>. Mae gwefan <http://Meddwl.org> er enghraifft yn llawn o gynnwys hanfodol ar gyfer hybu eich iechyd meddwl.

Mae rôl yr Iaith Gymraeg yn sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod fel siaradwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn - mae yna ryw beth at ddant pawb ac mae'r cynnwys yn berthnasol iawn.

Er hynny, mae angen mwy fyth o gynnwys a mwy fyth o blatfformau i apelio at drwch y boblogaeth. 'Rydym fel diwylliant yn cystadlu yn erbyn diwydiant enfawr Eingl-Americanaidd, a heb adnoddau ariannol anferth, mae'n dalcen caled. Ond, mae'n rhaid bwrw 'mlaen. Mae gan y llywodraeth hefyd gyfrifoldeb i fuddsoddi ac ysgogi hyn trwy greu'r amodau er mwyn creu cynnwys newydd a sicrhau fod y Gymraeg yn berthnasol yn y byd digidol. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo bod hyn yn rhan o'r weledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a chydychyd phwyslais sylweddol ar y digidol y gobaith yw y byddant yn gweithredu ar eu gair i fuddsoddi a datblygu arloesedd. Ond mae yna ddyletswydd arnom ni fel siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol i greu cynnwys a chreu plattfformau newydd hefyd. I fachu slogan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mae'n rhaid cael 'Popeth yn Gymraeg' yn union fel y Beibl dros bedwar can mlynedd ynghynt.

Mae gan Cymunedau Digidol Cymru sesiwn 'Y Gymraeg ar y We' sy'n bwrw golwg ar yr adnoddau hyn, ac mae croeso i chi e-bostio Cymunedau. Digidol@wales.coop i drefnu hyfforddiant am ddim.



Cyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg CYN 2050?

Posib neu beidio? Posib – wrth gwrs!

Oedolion sy’n dysgu yw’r ateb ond y broblem fwyaf yw bod llawer yn gadael y cyrsiau am wahanol resymau ac mae llawer o’r rhai sydd yn cyrraedd diwedd yr ail flwyddyn yn methu darganfod y drws i mewn i’r gymdeithas. Mae gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll i’r iaith.

Beth am annog dysgwyr yr ail flwyddyn i ddechrau cael cyfarfodydd i ymarfer eu hiaith a hynny mewn lle cyhoeddus? Bydd hyn yn rhoi cyfle i’r Cymry Cymraeg ddod i’w hadnabod nhw ac i roi gwahoddiad iddyn nhw i’r gymuned.

Hefyd, unwaith y maent wedi gorffen yr ail flwyddyn bydd y grŵp yna i roi cymorth i’r ail flwyddyn sydd wedi eu dilyn, ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Yn sydyn mae pont wedi ei chreu i’r gymuned, a bydd mwy o’r dysgwyr yn dal ati tan ddiwedd y cwrs achos maen nhw’n cymysgu â dysgwyr mwy profiadol.

Bydd y bont sydd wedi ei chreu yn bwydo gwaed newydd i’r gymuned leol sydd wir ei angen.

Er mwyn cael y gorau o’r cynllun syml yma mae’n rhaid i’r grŵp gyfarfod mewn lle cyhoeddus, yn yr un lle, ar yr un amser ac yn rheolaidd.

Yr unig beth sydd angen ei wneud yw:

Cael y tiwtoriaid i annog y dysgwyr i ddechrau’r grŵp.

Cael y Fenter Iaith i roi cymorth iddyn nhw wrth fod yna i gadw sgysiau i fynd yn yr wythnosau cynnar.

Gwneud yn siŵr bod y papur bro yn tynnu sylw at y grŵp.

Mae dysgwyr yn llawn brwdfrydedd a byddent nhw yn ased mawr i’r gymuned a’r iaith.

Cynllun fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr heb gost i’r llywodraeth!

Ers blwyddyn bellach ‘rwyf i wedi bod yn cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o’r enw Y Wennol, gyda’r cyfranwyr i gyd yn ddysgwyr. Cefais y syniad am y cynllun yma ar ôl i un o’r cyfranwyr ysgrifennu am sut y gwnaethant ffurfio grŵp i gyfarfod yn y Three Cliffs Café yn Southgate, Gŵyr. Mae Southgate yn bentref Saesneg ei olwg ond wrth ffurfio’r grŵp maent wedi dod i adnabod llawer o siaradwyr Cymraeg yn y pentref. Mae aelodau’r grŵp wedi cael eu cyflwyno i Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac erbyn hyn yn aelodau selog.

Mae’r cynllun ‘dw i’n ei awgrymu uchod wedi’i seilio ar brofiad aelodau o’r grŵp. Roeddent yn ysu am gyfle i siarad yr iaith yr oeddynt wedi gweithio mor galed i’w dysgu. Nid ydynt yn cyfarfod ar hyn o bryd wrth gwrs ond byddant yn ail ddechrau cyn gynted â phosibl.

Pan wnes i feddwl am ddechrau cyhoeddi’r Wennol ‘roedd angen cyfranwyr, a chan fod gen i gysylltiad â’r grŵp yn barod, atynt hwy y gwnes i droi. Erbyn hyn maent wedi cael llawer cyfle i ysgrifennu ac wedi mwynhau’r profiad. Mae eu herthyglau wedi cael eu cyhoeddi yn ein papur bro a hefyd yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd. Erbyn hyn mae 13 rifyn o’r Wennol wedi ei gyhoeddi, a heb y dysgwyr ni fuaswn wedi medru gwneud hynny. Faint o ddysgwyr medrus sydd yn mynd ar goll bob blwyddyn?

Mae creu’r grŵp wedi rhoi agoriad i’r gymuned Gymraeg o’u cwmipas iddynt. Maent wedi cael newid byd, a’r gymuned Gymraeg yn eu sgîl. Os hyn yw’r effaith yn Southgate meddyliwch am yr effaith drwy Gymru gyfan pe bai’r un peth yn digwydd ym mhob ardal.



Ymhen ychydig fisoedd bydd y dosbarthiadau nos yn dod i ben. ‘Rŵan yw’r amser i ddechrau sicrhau nad ydym yn colli’r dysgwyr sydd yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd. Felly chi’r tiwtoriaid sydd yn darllen hyn, ewch ati i annog eich dysgwyr i greu grŵp cyn i’r flwyddyn ddod i ben.

Peidiwch â gadael pethau’n rhy hwyr!

Hyd y gwn i ‘does neb wedi ffurfio cynllun i’r Cymry Cymraeg i’w ddilyn i sicrhau dyfodol i’r iaith. ‘Dw i’n meddwl y bydd y cynllun yma yn gwneud byd o wahaniaeth i lwyddiant dysgwyr i feistroli’r iaith. Ond nid siarad am y broblem sydd raid – mae angen gweithredu!

‘Rydym newydd lenwi ffurflenni’r cyfrifiad a bydd yn ddiddorol gweld faint o siaradwyr Cymraeg sydd erbyn hyn, o’i gymharu â deng mlynedd yn ôl. Beth bynnag fydd y ffigyrau’n ddangos byddent wedi bod yn llawer gwell pe baem ni wedi gwneud rhywbeth fel hyn ddeng mlynedd yn ôl!

Rob Evans

Hysbyseb Swyddi

Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg

Arweinydd Ystafell - cymhwyster Lefel 3 neu uwch

(Llawn Amser)
Cyflog: £9.60 yr awr

Cymhorthydd - cymhwyster Lefel 2 neu uwch

(Llawn / Rhan amser)
Cyflog: £6.65 - £9.30 yr awr
(yn ddibynnol ar oedran a chymhwyster)

Mae Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg, Cyffordd Llandudno yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egniol a chreadigol sydd yn gallu cyfathrebu trwy’r Gymraeg, i ymuno a’u tim cyfeillgar y feithrinfa.

Am fwy o fanylion pellach a ffurflen gais, cysylltwch a Sioned Evans neu Eurgain Llwyd ar 01492 203 398 neu trwy ebost rheolwr@derwendeg.cymru

Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg,
Plas Tre Marl, Broad Street,
Cyffordd Llandudno, Conwy. LL31 9HL



Canolfannau Hamdden Gwynedd yn croesawu’r Gymuned yn ôl

Ers y 4ydd o Fai, mae nifer o Ganolfannau Byw’n lach wedi ail-agor i gwsmeriaid. Daw hyn wedi croesawu clybiau a mudiadau yn ôl i’r caeau synthetig a chyrtau tu allan ers rhai wythnosau.

Bellach, mae canolfannau Plas Ffrancon, Bangor ac Arfon wedi ail-agor eu drysau i gwsmeriaid allu ymarfer yn ddiogel. Mae modd i gwsmeriaid ymweld â’r gampfa neu nofio lôn yn y pwll.

Mae Byw’n lach hefyd yn cynnig y sesiynau poblogaidd Nofio Teulu. Mae pob teulu yn cael defnydd eu hunain o ran o’r pwll ar gyfer sesiwn awr. Bydd sesiynau Nofio Am Ddim ar gyfer rhai 60+ hefyd yn ailgychwyn.

Bydd angen i bawb gyrraedd y pwll yn barod i nofio (siwt nofio o dan eich dillad arferol). Ond Bydd yn bosibl defnyddio Ystafell Newid ar y ffordd allan i sychu a newid. Gall cwsmeriaid anabl logi gofod newid pwrpasol ar gyfer cyn ac ar ôl eu sesiwn nofio drwy ffonio’r ganolfan leol ymlaen llaw.

Bydd gweithgareddau grŵp, a fydd yn cynnwys rhaglenni poblogaidd o ddosbarthiadau ffitrwydd yn ogystal â gwersi nofio a gymnasteg i blant, yn ail-gychwyn. Bydd hefyd fodd i glybiau ddychwelyd o dan do a thu allan - drwy gadw at uchafswm o 15 o bobl mewn grŵp y tu mewn a 30 y tu allan am y tro.

Os ydych am gael lle i’ch plentyn yn y gwersi nofio neu gymnasteg, os gwelwch yn dda cysylltwch â’r ganolfan leol i ofyn a oes lle ar gael neu os ydyw’n bosibl ymuno â’r rhestr aros.

Mae’n rhaid bod yn aelod o Byw’n lach ar hyn o bryd a bwcio eich sesiynau ymlaen llaw. Mae aelodaeth flynyddol safonol yn costio £11.50 i bobl ifanc 16-24, pobl dros 60 oed a phobl anabl. Mae aelodaeth am



ddim i blant hyd at 16 oed ac yn £21.30 i bob oedolyn arall. Mae aelodaeth yn sicrhau pris is ar gyfer pob ymweliad yn ystod y flwyddyn. Mae modd wrth gwrs hefyd talu am becyn Debyd Uniongyrchol sydd yn rhoi defnydd diderfyn o’r cyfleusterau. Gall staff eich canolfan leol eich cynghori o ran yr opsiwn orau.

Yn anffodus ni fydd pyllau nofio Dwyfor na Bro Ffestiniog yn ail-agor ar hyn o bryd gan fod gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn parhau ar y ddau safle. Bydd Byw’n lach yn diweddarau cwsmeriaid unwaith y bydd y dyddiad trosglwyddo wedi’i gadarnhau gan y contractwyr.

Bydd Tîm NERS (Rhaglen Cyfeirio i Ymarfer) hefyd yn raddol ehangu eu gwaith a chefnogi cleientiaid newydd dros yr wythnosau nesaf. Mae’r tîm yn medru cefnogi ystod eang o drigolion sydd â chyflyrau iechyd penodol, yn gwella wedi triniaeth neu’n ceisio lleihau pwysau gwaed neu golli pwysau. Os ydych chi’n teimlo y gall y tîm eich cefnogi chi, siaradwch efo’ch meddyg teulu neu nyrs gymunedol i weld os ydyw’n opsiwn addas i chi.

Meddai Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw’n lach: “Mae hi wedi bod yn gyfnod hir ers i’r cyfleusterau fod ar gael oherwydd y rheoliadau i reoli Covid-19 on’rydym yn falch iawn o fod yn gallu ail-agor Canolfannau

Byw’n lach ac i groesawu pobl yn ôl.

‘Rydym yn ymwybodol y bydd sawl un yn teimlo ychydig yn bryderus am ddychwelyd. Mae hynny wrth gwrs yn ddealladwy ond mae ymchwil yn ystod yr Hydref a’r Gaeaf wedi profi bod canolfannau yn lleoedd diogel gyda’r trefniadau Covid Diogel ychwanegol sydd yn cael eu gweithredu.

Mae’r systemau yn cynnwys trefn pellhau cymdeithasol clir iawn, trefniadau glanhau ychwanegol a chyson, lleihad sylweddol yn y nifer o bobl a all fod yn yr adeilad ar unwaith, hyfforddiant Covid i bob aelod o staff a gwaith cynnal a chadw proffesiynau, ac addasiadau i’n systemau awyru sydd yn golygu fod llif o awyr iach i mewn i bob rhan o’r adeilad i safonau’r diwydiant.

‘Rydym yn ymwybodol y bydd sawl un yn teimlo ychydig yn bryderus am ddychwelyd. Mae hynny wrth gwrs yn ddealladwy

Mae hi hefyd yn bwysig cofio bod ymchwil sylweddol wedi cadarnhau bod cyswllt clir iawn rhwng bod yn actif ac yn ffit a gallu unigolyn i wrthsefyll Covid 19 a sawl afiechyd arall. Trwy gadw’n heini gall pob un ohonom ni warchod ein hiechyd a lleihau’r galw ar y Gwasanaeth Iechyd.”

Er mwyn cefnogi rhai sydd efallai’n teimlo eu bod angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol mae Byw’n lach am gynnal sesiynau newydd sbon wythnosol “Actif am Oes” ar bob safle o’r wythnos sydd

yn cychwyn 7fed o Fehefin 2021, ac a fydd ymlaen tan wyliau’r haf. Bydd cyfle i fynychu’r ganolfan ar fore neu brynhawn yn rhad am ddim.

Yn ystod y sesiynau bydd yr ystafell ffitrwydd ar gael gyda goruchwyliaeth a niferoedd isel - tebyg i drefniant “amser tawel”. Os ydych chi wedi anghofio sut i ddefnyddio’r offer, bydd staff cyfeillgar ar gael i roi anwythiad byr i’ch ail atgoffa. Bydd cyfle hefyd i gael taith tywys o gwmpas yr adeilad i weld y trefniadau newydd a siarad gydag aelod o staff. Bydd sesiynau blasu amrywiaeth eang o weithgareddau fel rhan o’r rhaglen, megis Yoga, ‘Circuits’ Ysgafn tu allan, teithiau cerdded er lles, sesiynau garddio a phethau newydd fel pêl-droed cerdded yn cael eu cynnal hefyd.

Bydd y staff Actif Am Oes newydd, Fiona a Paul, yn holi barn am y math o weithgareddau yr hoffai bobl weld yn y ganolfan yn ystod y dydd yn y dyfodol. Mae’r sesiynau yma’n ddelfrydol ar gyfer trigolion hŷn - ond ar gael i rywun sy’n awyddus i gymryd y cam cyntaf gyda dipyn o gefnogaeth ychwanegol. ‘Does dim rhaid bod yn aelod i fynychu’r sesiynau anffurfiol yma - croeso i bawb alw heibio! Bydd yr union ddyddiau ac amseroedd ar gyfer pob canolfa, ar gael ar wefan Byw’n lach yn nes at yr amser.

Bydd gwybodaeth am yr holl wasanaethau yma ar gael ar wefan www.bywniach.cymru ac ar dudalennau Byw’n lach ar Facebook, Twitter ac Instagram. Os nad ydych chi’n medru cael hyd i’r wybodaeth sydd angen mae croeso i chi ein e- bostio ni ar cyswllt@bywniach.cymru neu ffonio eich canolfan leol (rhifau ar gael ar y wefan).

Edrychwn ymlaen at eich croesawu’n ôl yn fuan!

Ysgol Rhiwlas

Prosiect Creadigol

‘Rydym fel ysgol yn hynod falch o fod yn rhan o gynllun ‘Ysgolion Creadigol Arweiniol’ Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae disgyblion CA2 wedi cael cyfnod prysur a chyffrous fel rhan o’r prosiect. Dymuniad y disgyblion oedd creu ffilm fer, a phenderfynwyd seilio’r ffilm ar hanes lleol. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda Cynrig Hughes, hanesydd lleol, am hanes Plas Pentir, ac ysgogodd hyn ddychymyg a brwdfrydedd y plant. O dan arweiniad yr actor Gwion Aled bu’r plant yn brysur yn creu modelau, datblygu stori a ffilmio golygfeydd dychmygol yn seiliedig ar yr hanes gwreiddiol. Mae’r prosiect yn parhau hyd at ganol y mis nesaf, pryd y bydd cyfle i’r disgyblion ddatblygu cân neu rap ar y cyd ag



Ed Holden. Y disgyblion hefyd fydd yn gyfrifol am olygu’r ffilm, a byddwn yn edrych ymlaen yn fawr at ddathliad a dangosiad o’r ffilm yn yr ysgol.

Bwyd Bendigedig Rhiwlas

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r grŵp Bwyd Bendigedig Rhiwlas wedi bod yn brysur yn ceisio trawsnewid y gymuned drwy arddio; y cynllun yw plannu a thyfu bwyd mewn cymaint o lefydd o gwmpas y pentref ag sy’n bosibl, ac mae’r Ysgol, Bro Rhiwen a’r Cae Chwarae wedi elwa o’u gwaith caled hyd yn hyn. Maent wedi plannu blodau gwyllt, coed afalau, a gwrych o goed cynhenid i’r gymuned ei fwynhau. Cyn y cyfnod clo, bu disgyblion yr ysgol yn helpu’r grŵp, ac ‘roeddent yn mwynhau yn arw cael y profiad o weithio gyda’r gymuned; ‘rydym yn falch o gael disgyblion sy’n ymfalchïo yn eu hamgylchedd ac sy’n ymroddedig i wella’r byd naturiol o’u cwmpas.

Taith Noddedig

Diolch yn fawr iawn i Llŷr, Evan ac Alisha am ddringo’r Wyddfa ar Fawrth 25ain er mwyn codi arian i’r ysgol. Cafodd y tri ddiwrnod bendigedig gyda’u rhieni, a chasglwyd £510 ganddynt am eu hymdrech. Gwych iawn wir!



Bwystfilod Bach

Thema’r Cyfnod Sylfaen y tymor hwn yw Bwystfilod Bach, a heb os nac oni bai, mae’r disgyblion wedi mwynhau. Dros yr wythnosau diwethaf, maent wedi bod yn casglu gwybodaeth am wahanol fwystfilod ac wedi penderfynu eu bod am edrych ar ôl y creaduriaid sydd yma eisoes, megis mwydod, malwod, chwilod, gwenyn a

phryfaid pric. ‘Rydym yn lwcus iawn yn yr ysgol i gael dau gwch gwenyn yn ein Gwarchodfa ac mae’r plant wrth eu boddau yn gwisgo’r siwtiau, ymweld â’r gwenyn yn wythnosol a dysgu am bwysigrwydd y gwenyn i’n bywydau ni. Gobeithiwn y byddwn yn gallu casglu mêl yn ystod tymor yr haf er mwyn i’r plant flasau cynnyrch lleol.

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

 **600723**
Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llunefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Sefydlwyd 1969

m.hughes a’i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
 **600633**
 (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

post@llaisogwan.com



Hanes Wil Bach

Golygwyd ac addaswyd gan Derfel Roberts

CYFLWYNIAD

Roedd y diweddar Wil Williams (1919 – 2011) Wil Bach i bobl ardal Bethesda ond Wil Rhwyd i bobl Caergybi – yn frodor o Ddyffryn Ogwen ac yn gweithio fel dyn signal ar y rheilffordd yn Y Fali, Sir Fôn. Yn y 70au byddwn yn cael galwad ffôn gan Wil o’r bocs signal bron bob nos Sul. Cawn hanesion hen gymeriadau Bethesda i gyd ganddo. Ar lafar roeddwn i’n derbyn yr hanesion hynny ac ni lwyddwyd i gynnwys fawr ddim ohonynt, os o gwbl, yn Llais Ogwan. Er hynny, roedd gwrandao ar Wil yn traethu am ‘yr hen ddyddiau’ yn brofiad difyr tu hwnt a bellach mae’r atgofion ar glawr a chawn eu gweld yma. Diolch i’w nai, George Owen am gadw a rhannu’r atgofion hyn.

D.R.



Pennod 4

Fe ddaeth Chwefror 1949 â phrinder gwaith i stesion Caergybi ac felly bu raid i amryw ohonon ni, hogiau’r traffig, godi ein pac a mynd dros glawdd Offa i weithio. Mae gen i ryw ffansi fod deigrin ar lygaid y ddau lew tew wrth i ni hogia’r relwê yn Sir Fôn hel ein traed i wlad y Sais i ennill ein bara beunyddiol. Cefais i fy hun mewn gorsaf fach o’r enw Daresbury nid nepell o Warrington. Yno, ‘roedd rhaid i ddyn fod yn Stesion Master, clerc tocynnau, casglwr tocynnau ac yn borter - popeth mewn gwirionedd. Y cyflog oedd pedair punt a naw swllt yr wythnos ac mae hynny’n dangos mor anodd oedd gwneud eich ffortiwn ar y relwê. Rhwng y trenau, rhaid oedd mynd â’r parseli i’r pentref cyfagos ac ‘roedd beic pwrpasol wrth law ar gyfer y gwaith hwnnw. Un diwrnod daeth clamp o samwn ar y trênn wedi’i gyfeirio at yr Arglwydd Daresbury. Es i â’r samwn i’w gartref, Daresbury House - tŷ anferth fel plas, ac i minnau fel hogyn o Dregarth, o dan ddylanwad cryf Dr Tecwyn Evans, rhaid oedd mynd â’r samon at ddrws ffrynt y plas. Dyma gawr o Sais yn agor y drws gan edrych arnaf drwy ryw fath o sbectol un llygad fel petawn yn lwmp o faw. Ac yna yn ei acen uchel-ael Seisnigaidd dywedodd “Back entrance you,” gan gau’r drws yn glep yn fy wyneb. Y peth cyntaf naturiol ddaeth i feddwl Wil oedd gosod y samwn i orffwys yn dawel ar garreg drws mei lord. Chlywais i’r un gair wedyn am Arglwydd Daresbury na’r samwn ac efallai mai dyna pam y deuthum yn ôl i Gymru mor fuan â Mis Mai.

J.T. Parry (Ap Idwal) 1853-1913

Paentiwr Tirwedd Dyffryn Ogwen

Tybed a allwn ofyn a oes gan unrhyw un o ddarlennwyr Llais Ogwan unrhyw baentiadau ar eu muriau gan yr arlunydd o Fethesda J.T. Parry (a elwir hefyd yn Ap Idwal) - gweler enghraifft o’i waith yma. Yn y gorffennol, mae Dr J. Elwyn Hughes wedi ysgrifennu amdano yn Llais Ogwan, ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael am yr arlunydd hwn. Ganwyd ef i deulu ffermio yn Chwarel Goch, Sling, ac aeth i weithio i’r chwarel, ond yna dywedir iddo gael ei hyfforddi fel peintiwr yn Llundain, wedi’i ariannu gan yr Arglwyddes Penrhyn a oedd wedi gweld rhai o’i luniau; mae’n amlwg ei fod wedi gwneud bywoliaeth fel ‘peintiwr tirlun’ ac yn cynnal teulu, ond mae straeon hefyd am ei ‘baentio am beint’ yn ddiweddarach yn ei fywyd. Credir iddo farw yn Ysbyty Tloty Bangor ar ôl cwmpo yn y mynyddoedd. Fel rhan o gyflwyniad Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, mae STORIEL Bangor (Amgueddfa ac Oriel Gelf Cyngor Gwynedd) wedi cynnig safle yn yr oriel ar gyfer detholiad o waith J.T. Parry rhwng Gorffennaf a Hydref. Mae Dr J. Elwyn Hughes wedi cytuno i ysgrifennu cyflwyniad i’r arddangosfa ac mae sawl perchennog a gysylltwyd â nhw eisoes yn barod i fenthg eu paentiadau. Mae llawer mwy o drigolion Bethesda gyda dyfriw ganddynt, neu mae ganddyn nhw berthynas neu ffrindiau sydd ag un. Byddwn yn ddiolchgar iawn clywed gan unrhyw un a fyddai’n caniatáu dangos eu paentiadau Ap Idwal / J.T. Parry yn STORIEL, neu a allai ychwanegu at ein gwybodaeth am fywyd a gwaith yr arlunydd hoffus hwn. Jeremy Yates: jslyates01@gmail.com / Tel: 01248 209085.

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

CHWILAIR

CHWILAIR MAI



Gweithgynhrychwyr Ceir Prydain a'r Cyfandir

A	A	W	T	O	E	G	U	E	P	F	H	R	I	M	E	J	L	C	M
B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	E	I	M	G	V	H	M
D	W	H	U	V	A	U	X	H	A	L	L	R	Z	M	X	V	A	D	D
N	A	P	R	A	U	Q	U	S	O	A	C	F	R	P	Y	Q	Z	G	R
H	J	C	U	O	M	W	N	O	L	E	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F
D	A	X	U	P	L	W	R	F	D	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E
E	G	G	E	O	M	L	A	E	H	E	P	T	T	C	B	B	C	U	U
J	U	P	L	T	M	R	S	I	V	V	D	N	C	B	B	F	R	F	O
G	A	J	V	I	O	B	I	R	R	R	I	X	I	M	H	T	T	O	S
K	R	O	P	M	E	W	R	C	O	T	M	K	C	B	O	R	C	X	V
R	Y	H	E	N	S	T	M	R	R	Y	N	E	F	Y	J	D	Z	H	B
C	W	O	Z	O	S	C	R	A	A	E	C	I	X	N	I	L	X	J	J
M	B	W	I	T	E	X	M	M	G	D	X	E	K	F	U	P	C	Q	Y
O	I	N	L	F	E	N	R	A	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	L
Z	I	E	B	E	O	A	W	J	K	J	C	L	N	L	R	V	O	G	J
M	P	W	P	G	T	S	L	A	N	D	R	O	V	E	R	S	O	W	J
J	Q	U	S	L	K	F	S	B	E	N	T	L	E	Y	V	T	X	E	U
G	H	A	S	L	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G
B	N	K	O	R	E	N	A	U	L	T	A	D	S	I	K	O	G	D	H
B	S	V	I	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	N

Yn y Chwilair mis yma mae ENWAU DEUDDEG O GYNYRCHWYR CEIR YM MHRydAIN A'R CYFANDIR i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA. I'CH DIDDORI YN UNIG YW.
Dyma atebion Chwilair Ebrill:- Aberdulais; Castell Penrhyn; Castell Powys; Erddig; Gerddi Bodnant; Hafod y Llan; Plas Newydd; Plas yn Rhiw; Pont Grog Conwy; Segontium; Tŷ Tredegar.

Nyth y Gân

RHOSYN GWYN

Gyda'r nos roedd y rhosyn – â'i oglau
Mor eglur i'w ddilyn,
Ac ias oedd gweld ar goesyn
Liw a gwên petalau gwyn.



LILI WEN FACH

Bu'r rhain wrth waelod waliau
Mewn trwmgwsg am yn hir,
Ac yna pwnio'u pennau
A wnaethant drwy y tir.

Mor dlws oedd bochau bychain
Sawl clwstwr o'r rhai hyn
Ddaeth gynt ar antur wantan
Uwch llawr o eira gwyn.

Edmygu'r deuliw dalent
A'u dewrder wnaethom ni
O weld yr eglur siglo
Fel ewyn ar flaen lli.

Y MÔR

Am y môr mae sawl stori: – y gwrol
Wŷr geirwon wnaeth foddi;
A daw'r llef o hyd o'r lli,
O'r anial sy'n lladroni.

CARADOG PRICHARD

Llenor fu'n creu trysorau – am dirwedd
Fu'n gorwedd â'u geiriau,
A rhwydo cymeriadau
O'i hen fro a honno'n frau.

SŴN FFOS Y MYNYDD

Ein gwadd a wnaeth fel gwyddom, – a gwrando
Ar gryndod a wnaethom;
Yno ar lwyd ddaear lom
Hen gysur yn wir gawsom.

Dafydd Morris



DRYW EURBEN

Rhyfeddol ei gorffolaeth, – a'i ddefod
Yn ddyfal glerwriaeth;
Yn sionc mae'n chwilio fel saeth,
Ac euraidd ei ratoriaeth.



Y FASARNEN

Un lydan a goludog, â'i hurddas
Yn ei harddwch deiliog;
Y pren dihafal, talog
Mor gain yn nhymor y gog.

PERTHI

Prydferth yw gwedd y perthi, – goludog
Ein cefn gwlad o'u hegni;
Y gwanwyn ddaeth â'u geni
Yn ei bryd a'u dwyn i'w bri.

LLIWIAU NATUR

Mor araul yw miaren, – a hardd yw
I'r ddail castanwydden;
A gwyh yw minlliw a gwên
Rhosod a gwallt ceiriosen.

CYFEILLGARWCH

Mae'n warant diffuantrwydd, – yn galon
I'n gilydd; yn ysgwydd;
Yn rhoi brawdgarwch yn rhwydd
A dagrau caredigrwydd.

Goronwy Wyn Owen

PRIF WEINIDOG PRYDAIN FAWR

Efe'r haul, efe'r eilun, – y gwleidydd
Goludog penfelyn;
Efe fawr yw'r un a fyn
Dywys ar greisus. Gresyn.

CÔR Y WIG

Cynghanedd y canghennau – ar gynnydd,
A'r gwanwyn yn dechrau
Ein swyno wrth i synau
O enau bach ein bywhau.

EIRLYS

Mae'r hêth yn llym i'r eithaf, – a'i llaw oer
Yn lladd, ond fe'i heriaf;
Blodyn wyf, blodeuo wnaif
Ag awydd trech na'r gaeaf.

Howard Huws

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



Llais Ogwan

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

JAMIAU CARTRA'

(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau





Enwau Dyffryn Ogwen

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.

Bryn Bela

Ardal fechan yw Bryn Bela, o gwmpas y groesffordd ble mae'r ffyrdd o Dregarth yn ymuno gyda'r A5. Heddiw'r cyfan sydd o gwmpas y groesffordd yw 3 thŷ moel, fferm Coetmor, yr hen felin, pedwar o dai Parc y Moch rhyw ganllath i lawr y ffordd, a dau dŷ Tan y Bryn ychydig ymhellach i lawr tuag at Bont y Pandy. Fodd bynnag, ar un adeg, bu gobeithion mawr y byddai pentref yn datblygu yn y fan hon, a hynny oherwydd ei safle ar y groesffordd, ynghyd â'r gobeithion am lwyddiant chwilio am gopr yn agos ar lan Ogwen a llechi yn Nolgoch, oedd gerllaw. Yr oedd treialon am gopr wedi digwydd y ddwy ochr i Ogwen, ychydig yn is i lawr yr afon na Phont Coetmor, mor gynnar â'r blynyddoedd 1760-70, gyda mwynwyr o Gernyw yn gweithio yno, a dywed Hugh Derfel Hughes na 'ddiffoddid canhwyllau yno nos na dydd am saith mlynedd'. Fodd bynnag, daeth y gweithio i ben oherwydd ymrafael gyda Stad Coetmor, oedd piau un glan i'r afon. Yn ôl Cyfrifiad 1841 pedwar tŷ oedd yno, dau gyda'r enw Coetmor, a dau o'r enw Bryn Bela, ac mae'n arwyddocaol, o gofio'r cloddio am gopr oedd yn ymyl, mai mwynwr o'r enw Godfrey Marton, a'i deulu, oedd yn byw yn un ohonynt. Roedd dau dy ym Mharc y Moch, a thafarn, y Coetmor Arms, ar y groesffordd. Erbyn 1851, roedd 4 Coetmor Cottage, 2 Fryntirion, Brynbela (gyda George Twigge yn byw yno efo'i deulu), a chyn bo hir, cafwyd capel bychan heb fod ymhell. Erbyn 1861 roedd 7 tŷ ym Mharc y Moch, ac roedd Tŷ Mwyn (a ymddangosodd fel Tŷ Moon yn 1871!) yno hefyd. Fodd bynnag, ni wireddwyd y breuddwydion am y copr na'r llechi, nac am ddyfodol y pentref newydd. Symudwyd y capel i Dregarth, i fod yn gapel Penygroes; yn ôl traddodiad lleol, symudwyd Tŷ Mwyn, garreg wrth garreg, i'w ail-godi yng Nghae'r Groes, Rachub; caewyd y Coetmor Arms (a ddaeth yn Tŷ Coetmor), ac, yn 1884, agorwyd y rheilffordd o Fangor i Fethesda, gan fynd yn syth trwy'r dreflan, a chwalu tri bwthyn oedd yn ei llwybr. A dyna ddiwedd ar

ddatblygiad treflan Bryn Bela. O safbwynt yr enw, mae'n un eithaf cyffredin trwy Ogledd Cymru; ceir Bryn Bella (gyda'r LL), yn Llanfaes (Môn), Chwitfordd (Fflint), Llandyrnog (Dinbych), a Chricieth, ac mae Bryn Bela (efo L) ym Mrynsiencyn a Rhoscolyn (Môn). Gellir cael tri ystyr iddo Yr un lleiaf tebygol yw mai enw merch, Isabella, sydd yma. Roedd Tyddyn Sabel yn y dyffryn, yn ogystal ag yn Llanrug, a Chae Sabel ym Marchwial, a Llanfaelrhys, ac mae Bella, Isabel, a Sabel yn enw oedd yn bodoli. Tipyn mwy tebygol yw mai 'bele goed' (pine marten) sydd yn yr enw, a bod yr ardal yn gartref i nifer o'r creaduriaid, neu, efallai, i un bele arbennig. Fodd bynnag, er bod y bele yn greadur hynod o brin erbyn heddiw, diolch, yn bennaf, i giperiaid y stadau mawrion yn Oes y Fictoria, a fynnai ladd pob anifail ac aderyn ysglyfaethus oedd yn peryglu'r 'gêm', nid felly'r oedd hi. Roedd y bele yn hynod gyffredin, ac ni fyddai wedi ei gyfyngu i un bryn yn yr ardal. Ffansïol mae'n fwy na thebyg, yw'r esboniad a glywais mai dyma fan lladd y bele olaf yn yr ardal. Mae Glenda Carr 'Hen Enwau o Arfon, Llyn, ac Eifionydd, yn derbyn mai enw'r anifail sydd yn yr enwau sy'n cynnwys yr elfen 'bele'.



Yn drydydd, hoffwn gynnig eglurhad llawer mwy syml, ac, yn amlach na heb, yr eglurhad syml yw'r un cywir; fel arfer, ein chwilfrydedd sy'n chwilio am ystyr cymhleth i enw. Yn ôl GPC 'Bela, bele, belau' yw Planhigyn Ewrasiaidd cwrs a gwenwynig

o deulu'r codwarth (ac iddo aroglau annymunol) yn dwyn dail blewog gludiog, ffa'r moch, llewyg yr iâr, Hyoscyamus niger: Saes: henbane



Ac yn y fan honno, hoffwn awgrymu, y gorwedd ystyr Bryn Bela, sef bryn ble mae llawer o'r planhigyn bela yn tyfu. Byddai'n bwysig mewn oes a fu, gwybod ble byddai'r planhigyn hwn yn tyfu, oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn sawl meddyginaeth draddodiadol. Roedd iddo rinweddau lladd poen, a defnyddid ef i leddfu poen yn yr esgyrn, crud y cymalau, y ddannodd, peswch, afiechydon nerfol, a phoen yn y coluddion, Oherwydd ei amryfal rinweddau roedd yn blanhigyn hynod o bwysig ar gyfer meddyginiaethau. Erbyn heddiw mae'n hynod o brin yng Ngogledd Ewrop ond roedd o mor bwysig fel yr aed ag ef i'r America gyda'r mudwyr, ac mae'n fwy cyffredin yno erbyn hyn nag yw yma. Roedd mor bwysig fel ei bod yn hanfodol gwybod ble'r oedd digon ohono i'w gael, ac roedd Bryn Bela yn un o'r llefydd hynny. Eto byddai rheswm arall pam y byddai'n bwysig nodi lleoliad y bela; yr oedd, ac y mae, yn wenwyn i geffylau, ac anifeiliaid eraill, a byddai angen i anifeiliaid osgoi'r lle tyfai. Wn i ddim ai dadl o blaid, neu yn erbyn, yr awgrym hwn am yr eglurhad o'r enw, yw'r ffaith fod y planhigyn yn wenwynig i foch, a bod Bryn Bela a Pharc y Moch yn yr un ardal yn union.


CROESAIR

Ar Draws

- 1 Llawer 2.54cm ers talwm (7)
- 5 Edrych yn od yn y cwm ar ôl syrthio (5)
- 8 Mae golwg dda i gyw du heb bedol (5)
- 9 Daear wastad, di-fynydd (7)
- 10 Pinacl a rhan gofiadwy unrhyw brofiad (9)
- 12 “Arglwydd ein --- ni” (*Salm*) (3)
- 13 Rhoi sglein (6)
- 14 Golchi yn flêr efo mymryn bach o ddŵr mewn pentref yn Eifionydd (6)
- 17 ‘Y ---’, yr enw a roir i ran ddeheuol yr hen Sir Forgannwg (3)
- 18 Fel hyn mae taliad heb ei wneud (2,7)
- 20 Heb ei fath (7)
- 21 Eisteddfod 2016 (5)
- 23 Enw Gwyddelig ar fachgen (5)
- 24 Gwneud yn ddi-waith (7)

I Lawr

- 1 Y gallu i wneud (5)
- 2 Fel 12 Ar Draws (3)
- 3 Fel W.M. y cyfieithydd (7)
- 4 Roedd Dic Aberdaron yn un o’r rhain, meddir (6)
- 5 Archwiliad crwner (5)
- 6 Heb fedru dangos emosiwn nac empathi (9)
- 7 Mae’n ddrygionus a direidus (7)
- 11 Bu’n rhaid gwneud llawer o’r rhain cyn darganfod brechlyn i’r Covid-19 (9)
- 13 Rhoi heibio a thaflu o’r neilltu (5,2)
- 15 Mewn egwyl o fusnes trist rwy’n teimlo’n ddagreuol (7)
- 16 Adduned mewn da weddi (6)
- 18 Bron iawn (5)
- 19 Capel yn 14 Ar Draws (5)
- 22 Ocsigen sy’n ein cadw’n fyw (3)



ATEBION CROESAIR EBRILL 2021

AR DRAWS 1 Teg, 3 Esgob, 7 Hagr, 8 Mandolin, 9 Drygionus, 12 Arogli, 13 Doctor, 15 Potel Laeth, 18 Penlinio, 20 Athro, 21 Ianci, 22 Lôn

I LAWR 1 Tras, 2 Gwridog, 3 Ein, 4 Gloyen 5 Briwsion, 6 Amrywiol, 10 India Roc, 11 Tripleddi, 14, Cythraul, 16 Telyn, 17 Crwn, 19 Nai

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi’n garedig *i beidio* ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy’r post na thrwy’r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i’ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Partneriaeth Ogwen



Y Dyffryn Gwyrdd

Mae Dyffryn Gwyrdd yn brosiect tair blynedd a ariennir gan y Loteri Gymunedol, o dan arweiniad Partneriaeth Ogwen. Mae'n cynnal nifer o brosiectau gyda'r nod o gryfhau'r gymuned. Am restr lawn gweler www.partneriaethogwen.cymru

Cronfa Cefnogi Covid

Diolch yn fawr iawn i Manon Williams, sylfaenydd y cynllun Bwyd Am Ddim, prosiect sydd yn gweithio gyda Fareshare, Londis, Aldi ac M&S gyda'r nod o fynd i'r afael â gwastraff bwyd. Mae Manon wedi camu'n ôl erbyn hyn a bellach mae'r prosiect wedi symud o Neuadd Ogwen a swyddfa Dyffryn Gwyrdd i Ganolfan Cefnfaes. Mae yna hefyd wasanaeth sy'n darparu parseli bwyd i bobl sy'n ei chael hi'n anodd yn sgîl y pandemig.

Derbyniwyd cefnogaeth hael yn ddiweddar gan gronfa Economi Gylchog Cyngor Gwynedd, a bellach mae gennym rewgell ac oergell broffesiynol a silffoedd safonol ar gyfer storio'r bwydydd a dderbynnir gan ein partneriaid ac unigolion a theuluoedd caredig Dyffryn Ogwen.

Cysylltwch â harri@ogwen.org am fwy o wybodaeth.



Cyfaill Cymunedol

Mae'r gwaith arbennig gyda Caffi Coed y Brenin i gyflwyno Pryd ar Glud amser cinio Ddydd Mawrth a Dydd Iau yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae Dewi a'r car trydan yn danfon i gyfartaledd o ddeg ar hugain o gartrefi'r wythnos. Bwyd blasus, lleol, maethlon!

Cysylltwch â Karen yn y Caffi i archebu karena@agoriad.org. [uk / 01248602550](tel:01248602550).

Cynhwysiant Digidol

Gyda chefnogaeth Cronfa Rank, 'rydym yn gweithio ar brosiect i ddarparu tabledi, cysylltiad rhyngwryd, a hyfforddiant digidol i helpu pobl i wneud y gorau o dechnoleg. Cysylltwch â tom@ogwen.org am fwy o wybodaeth

Beiciau Trydan

Yn ddiweddar, 'rydym wedi dechrau prosiect i drosi beiciau yn feiciau trydan. Cyn bo hir bydd y rhain ar gael i'r cyhoedd eu benthyg. Hefyd ar y gweill mae gweithdai trin a thrwsio a theithiau beic. Gwylwch y gofod hwn a'r cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

Amser tyfu

Mae Dyffryn Gwyrdd a'n cefnogwyr wrthi'n datblygu gardd gymunedol ger Plas Ffrancon. Diolch yn fawr i Gwmni Byw'n Iach am eu cefnogaeth parod. Yn ogystal, 'rydym yn gweithio gyda'r Cynghorau Cymuned i roi bywyd newydd i erddi Llys Dafydd, y cae chwarae yn Nhal y Bont, a Tan Tŵr ar Stryd Fawr Bethesda

(ger Annie's Orphans). Bydd gweithgareddau tyfu llysiau rheolaidd a gardd bywyd gwyllt yn cael eu datblygu yno gyda chroeso cynnes i unrhyw un sydd eisiau dysgu, rhannu sgiliau neu sgwrs yn yr awyr iach. Byddwn hefyd yn helpu ysgolion a stadau tai i droi ardaloedd gwyrdd yn ardal flodau er mwyn rhoi cartref i wenyn a gloynnod byw. Beth am ddod yn bencampwr blodau yn eich stâd o dai neu eich stryd?

Cysylltwch â judith@ogwen.org am fwy o wybodaeth.

Gwella'n amgylchedd

Gyda'r tywydd yn braf a'r cyfyngiadau yn llacio, daeth criw bach o'n cyfeillion draw i helpu i ddacluso Parc Meurig yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Alun, Jan, Eric a Robyn. 'Doedd hi ddim yn rhy ddrwg, ond serch hynny fe gasglwyd 6 sach o sbwriel. Byddwn yn cynnal sesiynau fel hyn bob pythefnos dros yr haf. Gallwch hefyd ein holi am fenthyg offer er mwyn cael sesiwn efo'ch teulu a ffrindiau.

Cysylltwch â harri@ogwen.org am fwy o wybodaeth.



Agor y Gist – Cist Gwynedd 2021/22

Grantiau cyfalaf a refeniw ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol Gwynedd

Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol Gwynedd yn cael eu hannog i ystyried gwneud cais am grantiau refeniw a chyfalaf fydd yn cefnogi amrywiol brosiectau fydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau'r sir.

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau, Cist Gwynedd, yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 i annog cymunedau i wireddu'r amcanion hyn drwy gymryd rôl fwy rhagweithiol yn eu cymunedau.

Yn ogystal, mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig. Mae canran o'r Gronfa yn cael ei ddosbarthu i eisteddfodau lleol yng Ngwynedd, sef swm o £300, a dylid ymgeisio drwy



anfon e-bost i Swyddog Cist Gwynedd: CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Meddai'r Cyngorydd Gareth Thomas sy'n arwain ar y maes Economi a Chymunedau ar

Gyngor Gwynedd:

“Mae grantiau Cist Gwynedd yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n arwain at gryfhau cymunedau ledled y sir. Dyma gyfle i'n trigolion wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau eu hunain.”

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cronfa Cefnogi Cymunedau yw 31 Mai 2021. Mae'r Gronfa ar agor i dderbyn ceisiadau o dan £1,000 dros e-bost yn unig. Mae ffurflen gais ar gael ar ein gwefan yma: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfacefnogicymunedau neu gallwch gysylltu gyda swyddfa Cist Gwynedd ar e-bost CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 679 153 (Dydd Mawrth – Dydd Iau).

Mae pecyn ymgeisio ar gyfer Cronfa'r Degwm ar gael yma: www.gwynedd.llyw.cymru/cronfardegwm



Gall patios droi eich gardd yn lle allanol i fyw, i ymlacio, mwynhau neu weithio tu allan



CLADIO PALMANTAU TOEAU LLORIAU WALIAU TIRLUNIO

Mae Welsh Slate ar gael i brynu ar-lein ar www.ukstonedirect.com

Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor Gwynedd, LL57 4YG
Ffôn 01248 600656

Rhowch wybod i Crimestoppers am fasnachwyr diegwyddor a throseddau ar drothwy'r drws

Gall trigolion a busnesau ar hyd a lled Cymru sy'n credu bod masnachwyr diegwyddor yn targedu eu cymuned, neu sy'n adnabod rhywun sydd wedi dioddef yn sgil trosedd ar drothwy'r drws roi gwybod yn ddienw i Crimestoppers.

Mae Gwasanaeth Safonau Masnach Cymru ac elusen wedi ymuno i ddarparu gwasanaeth sy'n galluogi aelodau o'r cyhoeddi i ddarparu gwybodaeth werthfawr yn ddi-enw i gadw cymunedau'n ddiogel ac yn iach.

Dyma'r mater diweddaraf y mae'r ddau sefydliad wedi bod yn cydweithio arno i annog aelodau o'r cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth am bryderon a allai fod ganddynt, yn gwbl ddiennw.

Meddai Helen Picton, Cadeirydd Gwasanaeth Safonau masnach Cymru: "Rydym ni'n falch iawn gallu gweithio gyda Crimestoppers a chynnig ffordd i aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am y troseddau hyn yn ddienw.

"Gall trosedd ar y trothwy effeithio ar unrhyw un, ond yn aml iawn, yr henoed a

phobl agored i niwed sy'n cael eu targedu gan fasnachwyr diegwyddor sy'n cynnig gwasanaethau gwella'r cartref.

"Gall gwerthwyr o'r fath gynnig gwasanaethau, gan gynnwys glanhau ffenestri, cwteri, atgyweirio llwybrau neu ddreif, a gwaith ar y to neu adeiladu, gerddi, tocio coed neu hyd yn oed perswadio'r trigolion bod yn rhaid iddyn nhw ddod i mewn i'w cartref i 'wirio rhywbeth'.

"Gallant fod yn argyhoeddiadol iawn a cheisio'n galed i'ch darbwylo trwy eu dulliau gweithredu a'r hyn a ddywedant – mae'n hawdd cael eich twyllo. Sgamwyr di-gymhwyster yw'r bobl yma sy'n codi ffioedd anferthol am ddim neu'r nesaf peth i ddim."

- Gwasanaethau heb eu gorffen neu wasanaethau o ansawdd gwael
- Prisiau uwch a mynnu bod y gwaith yn waith brys
- Pwysau i gytuno yn y fan a'r lle
- Taliadau arian parod ymlaen llaw
- Dim gwaith papur a/neu hawl i ganslo'r gwaith

- Heb fod yn darparu manylion y masnachwr
- Taflenni'n datgan Cyfnod Callio Statudol
- Anwybyddu arwyddion neu sticeri sy'n gofyn i'r masnachwr adael a pheidio â dychwelyd
- Gwerthu nwyddau o fan yn dilyn galwad ddi-rybudd ar drothwy'r drws
- Gwerthu o leoedd anarferol, e.e. sêl cist car

"Os credwch fod masnachwr diegwyddor yn gweithredu yn eich cymuned chi, neu os yw rhywun yr ydych yn ei adnabod wedi dioddef yn sgil trosedd ar drothwy'r drws, yna rhowch wybod i Crimestoppers ar 0800 555 111 neu ewch i <http://crimestoppers-uk.org> a dweud wrthynt beth wyddoch chi. Gall eich gwybodaeth gadw cymunedau ar hyd a lled Cymru'n ddiogel," ychwanega Helen Picton.

Os yw'n fater brys, neu os yw masnachwr diegwyddor yn yr eiddo, cysylltwch â 999, neu os oes angen cyngor arnoch i helpu gydag anghydfod, pryder neu amheuaeth, ffoniwch Cyngor ar Bopeth ar 0808 223 1133.

SIÂNGWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



CYSYLLTWCH:



01286 672076



70 Stryd Fawr, Bangor



sian.gwenllian@senedd.cymru



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:



01286 672076



70 Stryd Fawr, Bangor



hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Vavasor Jones

Rai blynyddoedd yn ôl prynais ddwy gyfrol o waith W. Alister Williams, o siop Llyfrau Ogwen Books, Bethesda, gyferbyn a siop y Spar. Teitl y ddwy gyfrol oedd Heart of a Dragon (The VCs of Wales and the Welsh Regiments). ‘Roedd y gyfrol gyntaf yn adrodd hanes y rhai a dderbyniodd y fedal rhwng 1854 – 1902, a’r ail gyfrol yn ymdrin â’r blynyddoedd 1914 – 1982. Yn ddiweddar ail-gydiais yn yr ail gyfrol, ac wrth ddarllen trwyddi deuthum ar draws hanes bachgen o’r enw Albert White, a oedd yn sarjant gyda’r 2nd Bn The South Wales Borderers. Fe’i ganwyd ar y 1af o Ragfyr 1892 yn Lerpwl, yn fab i Thomas Henry White ac Eliza Ann White (Falls). ‘Roedd y tad yn wreiddiol o Dundee yn yr Alban, a’i fam o Lerpwl. Yn yr hanes am yr ymgyrch pryd y lladdwyd Albert White, mae adroddiad arall yn sôn am 2/Lieut. Vavasor Jones, yntau yn cael ei ladd bron yr un adeg ag Albert White. ‘Roedd Vavasor Jones yn aelod o’r 7 RWF, ynghlwm â’r SWB, ond yr hyn a dynodd fy sylw oedd y cyfeiriad at enw ei dad a’i fam, sef y diweddar Capten Morris Jones a’i fam Ellen Jones, Dolcaradog, Bethesda, gynt o Porthmadog, Sir Caernarfon.

Nid oeddwn wedi dod ar draws enw’r bachgen yma wrth ymchwilio i hanes y bechgyn o’r ardal a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac felly dyma ddechrau chwilo am rywfaint o wybodaeth amdano.

Mae’n ymddangos ei fod wedi byw yn yr ardal rywbryd rhwng 1905 ag 1916. Bu farw ei dad, Capten Morris Jones, ym 1903, ym Mhorthmadog. ‘Roedd yn ddyn uchel ei barch yno yn ôl yr adroddiad am ei angladd. Bu’n llongwr ers yn ieuanc iawn gan hwylio ar draws y byd, a gweld nifer o wahanol leoedd yn ystod ei yrfa, yn ogystal â bod yn gapten ar nifer o wahanol longau, cyn ymddeol a dechrau busnes gwneud hwyliau llongau ym Mhorthmadog.

Yr adroddiad cyntaf i mi ddod ar ei draws ynglŷn â Vavasor



oedd yn y Caernarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent dyddiedig 11eg o Fai 1900, lle’r adroddwyd hanes priodas ei chwaer Laura Morris Jones, yng nghapel Salem, Porthmadog, a’r Dr R. E. Roberts. Yn yr adroddiad ceir rhestr anrhegion a roddwyd i’r pâr ifanc, ac ynddo cawn wybod fod Vavasor a’i frawd Arvor wedi rhoi “dressing case” iddynt. ‘Roedd y pâr yn mynd ar eu mis mêl i Lundain ac yna ymlaen i Paris.

Yr ail adroddiad ynglŷn â Vavasor oedd adroddiad Saesneg arall yn y Caernarvon and Denbigh Herald and North and South Wales Independent dyddiedig Awst 2il 1907, ond cawn adroddiad Cymraeg yn Yr Herald Cymraeg ar y 6ed o Awst 1907, yn sôn am ddiwedd tymor yn Ysgol y Sir, Bethesda, pryd mae rhieni a disgyblion yr ysgol wedi eu gwahodd i de parti a mabolgampau ar lawnt y cwrt tennis. “Ar ôl gwaith blwyddyn hynod lwyddiannus bu i’r ysgol uchod orphen ei thymor mewn modd newydd. Gwahoddwyd rhieni a charedigion eraill yr ysgolheigion i ‘garden party’ ar y ‘Tennis Lawn’ tra yr oedd y disgyblion yn difyrru eu hunain gyda mabolgampau”. Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi’r rhai a oedd yn llwyddiannus mewn gwahanol chwaraeon, yn eu plith Vavasor Jones. Enillodd y ras 220 llath, 100 llath, naid uchel, a ras rhwystr. Yn ôl y Caernarvon & Denbigh Herald cyflwynwyd y gwobrau yn hwyrach ymlaen yn yr Assembly Room. Derbyniodd

Vavasor Jones y brif wobr sef y Victor Ludorum, - rhodd gan y prifathro.

Cawn adroddiad arall am Vavasor yn ‘The Welsh Coast Pioneer and Review for North Cambria’, dyddiedig Rhagfyr 19eg 1907, o dan y teitl Bethesda County School V Beaumaris County School, ac ynddo nodir bod Vavasor Jones wedi sgorio tair gôl yn ystod gem bel-droed. Mae’n amlwg fellyyr bod Vavasor yn fachgen athletaidd iawn. Y sgôr terfynol oedd Bethesda 5 Beaumaris 0.

Yn ‘Y Brython’ dyddiedig Rhagfyr 7fed 1916, gwelwn hanes ‘Bechgyn Bethesda’. “Ymgynhullodd bechgyn Bethesda, Arfon i dreilio noson ddifyr yn Hut 1, Y.M.C.A. Park Hall Camp, Croesoswallt, nos lau, Tachwedd 30, a chael rhydd-ymddiddan. Y llywydd oedd Liff. Vavasor Jones (Nant Ffrancon)”. Ar ddiwedd yr adroddiad mae’r bechgyn yn diolch yn bersonol i Liff. Jones am ei sirioldeb a’i garedigrwydd.

Yn ‘Y Genedl’ Hydref 17eg 1916, mae adroddiad o dan y teitl ‘Swyddogion Milwrol’. “Y mae amryw o wŷr ieuainc y fro wedi eu dyrchafu yn swyddogion yn y fyddin, ac mae rhai ohonynt ar hyn o bryd ar ymweliad a’u cartrefi, am ychydig seibiant. Gwelsom Lieuts. John Alun Jones, Gordon Terrace; Lieut. William Williams, London C and M Bank; Lieut. Herbert Bassett, Dolgoch; Cadben R. J. Owen, Pant; Lieut. Oscar Hughes, Glan Ogwen; a Lieut. Vavasor Jones, Tŷ’n y

Maes. Dyma nifer lled dda o fechgyn Bethesda wedi dringo i swyddi yn y fyddin mewn byr amser”.

Cawn y ddau adroddiad olaf am Vavasor Jones, yn y ‘North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality’, Mehefin 1af 1917, ac yn ‘Y Drych’ dyddiedig Gorffennaf 12fed 1917. Lle y nodir marwolaeth Lieut. Vavasor Jones, nai y Parch Owen Jones, Bronant, ar faes y gâd yn Ffrainc.

Ganwyd Vavasor Jones yn 1890 a bu farw ar Fai 19eg 1917. Claddwyd ef yn Dury Crucifix Cemetery, Ffrainc, gyda’r arysgrif yma ar ei garreg fedd “AND PRECIOUS SHALL THEIR BLOOD BE IN HIS SIGHT” PSALM 72.14

Nid oeddwn yn gallu cysylltu Vavasor Jones â Bethesda am yn hir, ond ar ôl ymchwilio’r cyfrifiadau o 1871 hyd at 1911 gwelais fod cysylltiad rhwng ei deulu a Maescaradog / Dolcaradog. Mae’n ymddangos bod teulu ei fam Ellen Jones (Williams) yn ffermio’r tir a bu chwaer Vavasor, sef Laura Morris Roberts (Jones) yn aros yno gyda’r teulu yn ôl cyfrifiad 1891. Bu Vavasor yng ngwasanaeth cwmni yr Alliance Assurance yn Wrecsam a Southhampton cyn ymuno â’r fyddin. Yng Nghyfrifiad 1911 cofnodir ei fam yn byw yn Dolcaradog ar ei phen ei hun. Bu ei frawd Dr Arvor Jones, yn Gapten gyda’r R.A.M.C. yn Gallipoli a Phalesteina. Bu yntau yn ddifrifol wael ond fe oroesodd ei salwch.

Diolch i Andre Lomozik am yr hanes.



Arfonwyson a Phentan Bryn Twrw

(Diolch i John Llywelyn Williams a Lowri Williams am eu caniatâd i Lais Ogwan atgynhyrchu gwaith oddi ar eu gwefan ‘Hanes Dyffryn Ogwen.’ Mae’r wefan yn llawn o erthyglau a hanesion difyr gan lu o gyfranwyr am orffennol y fro ac mae’n werth ymweld â hi o dro i dro.)


Rhan 1

Dyma erthygl gan un o’r cyfranwyr gwadd, Deri Tomos, Llanllechid.



Y planedau yn cylchynnu’r haul ym Mryn Twrw.

Ymysg rhyfeddodau Dyffryn Ogwen mae ugeiniau, onid cannoedd, o bentanau a llechi mawrion eraill a gerfiwyd yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn addurno nifer o anheddau’r dyffryn. Dyma Lechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen. Mae nifer ag arnynt ddyddiadau rhwng 1823 a 1843. Wedi’r cyfnod byr hwn aeth yr arfer o’u cerfio allan o ffasiwn ac, i bob pwrpas, yn angof. Yn sicr collwyd nifer ohonynt am byth. Ond o



Dosbarthiad rhai o Lechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen (o lyfr Gwenno Cafell).

tua 1977 dechreuodd ymchwil, a brwdfrydedd, Gwenno Caffell ac aelodau eraill Cymdeithas Archaeoleg Llandegai a Llanllechid newid yr agwedd ddi-hid hyd yma ac achub nifer o drysorau a fyddai wedi’u colli am byth heb eu gwaith. Yn 1983 cyhoeddwyd y llyfryn (dwyieithog) a oedd i dynnu sylw ehangach atynt (*Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen*, Amgueddfa Genedlaethol Cymru). Er, yn ôl y sôn yn y Dyffryn, bu angen cryn berswâd ar yr Amgueddfa Genedlaethol i ymgymryd â’r gwaith ! Mae enwau nifer o’r unigolion a fu’n allweddol yn hyn o beth wedi’u rhestru yn y llyfryn.

Yn ddiweddar bu adferiad pellach ym mhroffil y traddodiad wrth i’r artist Sian Owen, sydd â’i gwreiddiau yng Nghaellwyngrydd, ddefnyddio ambell batrwm i ysbrydoli celf newydd gan drefnu arddangosfeydd a gweithdai pwrpasol. Bu sawl disgrifiad cyhoeddus ar glawr a sgrîn, gan gynnwys rhai gan Magnus Magnusson, Jan Morris a Dewi Prysor. Mae i bob pentan ei hanes ei hun, ond goroesodd cryn dipyn o gefndir y toreth o fanylion annisgwyl sydd wedi’u cynnwys yng nghynllun un ohonynt. Llechi Seryddol Bryn Twrw yw’r pentan hwnnw. Yn ôl Gwenno Caffell mae’r rhain ymhlith y llechi cerfiedig mwyaf a gofnodwyd. Er nad ydynt, bellach, ym Mryn Twrw maent wedi’u gwarchod yn ofalus. Yn 1983 gwnaethpwyd copi mewn resin ohonynt, sydd bellach yng nghasgliad Storiell (Amgueddfa Bangor).



Y pentan yn ei le heddiw. Ar ei dri llechfaen mae 12 o baneli unigol llawn manylion seryddol a sêr ddewiniol.

Wedi’i wneud o dri llechfaen mawr, mae i’r pentan bum pâr o baneli gwyddonol manwl ynghyd â phanel canol lle amgylchynir enwau a dyddiadau teulu Bryn Twrw (Richard a Grace Jones a’u merch Eleanor) gan ddarluniadau gwych o deulu’r Sidydd. Y panel sêr-ddewiniol hwn, yn bennaf, sydd wedi dal llygad ymwelwyr diweddar. (Gan gynnwys, yn ôl y sôn, gais gan fyfyrwyr o Fangor ar i’r Parch Aelwyn Roberts fwrw allan gythreuliaid !) Ond y mae i’r pentan liaws o fanylion eraill sy’n adlewyrchiad dadlennol o’r wybodaeth am seryddiaeth yn 1837 – gan gynnwys manylion clip (diffyg) haul 1836, ymweliad comed Halley yn 1835, y pedair planed (cor-blanedau bellach) newydd a ddarganfuwyd yn negawd cyntaf y ganrif ac, o bosib, un o’r lluniau cyntaf o’r smotyng mawr coch presennol ar wyneb y blaned Iau.